YR YMOFYNYDD.

RHIF. 32.] EBRILL, 1850. [CYF. III.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."---GOL.

ARWYDD-FEIRDD CYMRU.

PENNOD III.

O farwolaeth Owain Glyndyfrdwy hyd undeb Cymru a Lloegr.

1415—1547.

(Parhad o tudal. 53.)

BEIRNIADAETH FARDDONOL A DEILYNGA EIN SYLW NESAF:—

Barddoniaeth arwyddfeirddiol a gynnwysa dair canghen, ac y mae pob un o honynt yn anhawdd ei thrin gyda pherffeithrwydd; pan gaffom gan hynny ddarn o waith campus, dylem ei brisio yn fawr, a'i goleddu fel trysor gwerthfawr. Y canghenau hyn ynt y canlynol;—1 Yr achyddol. 2 Y ddesgryfiadol, 3 a'r Arwraidd (Heroic). Pethau trymaidd, geirwon ac anystwyth iawn ynt euwau gweithredoedd hanesyddol, rhannau o wisgoedd, ac ymddygiadau personol; gofynant alluoedd barddonol o'r gradd uchelaf i'w troi a'u toddi i wersyddiaeth gynghaneddol a dyrys y beirdd Cymreig, heb golli golwg ar y prif ddiben ar un llaw, ac heb ar y llall iselu y cyfansoddiad i chwareuad plentynaidd ar eiriau. Boddir pob elfen awenyddawl gan feirdd anghyfarwydd a chyfansoddiad iaith, ac anfeddiannol ar y gallu o grynhoi geiriau mewn llinyn melusrediad, pob tro yr amcanant eu trafod. Bydd yn ormod o waith i roddi beirniadaeth ar gyfansoddiadau amrywiol feirdd yr oes o fewn terfynau y bennod hon; ac am hynny dewisaf Lewis Glyn Cothi, Guttyn Owain, a Thudur Aled i arddangos llenyddiaeth farddonol Cymru yn y 15fed ganrif.

I.—BARDDONIAETH ACHYDDOL, (*Genealogic Poetry*).

Elfen newydd yn awenyddiaeth herodaidd y Dywysogaeth, yw achyddiaeth. Dywedir gan Giraldus fod y Cymry yn cadw achau eu teuluoedd yn y 12fed ganrif; ond ni chafodd yr arfer ei throsglwyddo i'w Barddoniaeth am oesoedd wedi hynny, nes iddynt ddyfod yn fwy adnabyddus a'u cymmydogion. Y golygiad cyntaf a

geir, yw cyfeiriad byr gan Iolo Goch; ac amlwg ydyw nad oedd yn hen arfer gan fod Lewis Glyn Cothi yn gorfod benthycca y gair Normanaidd pe-di-gru i osod allan ei feddwl;—

"Gorau un ei *betigryw*
O Von i wlad Vynyw."

Deallir yn awr y rheswm fod cyn leied o farddoniaeth achyddol dda ar gael.

Prydydd y teimladau yw Gutyn Owain; ac anhawdd oedd gan ei awen esmwyth ac uchelradd ef blygu i blethu enwau. Dangosant ei gyfansoddiadau feddwl gwrol uwchlaw pethau mor ddifywyd; ac yn alluog i brydyddu heb y fath gynnorthwyon cymmer ffordd ragorach, ac ymddybyna yn ei waith ar ei egni meddyliol ei hun. Am hynny nid ydyw yn ymddangos gyda llawer o deilyngdod, yn y ganghen achyddol, fel y dengys y canlynol,—

"Tudur waed Tewdwr ydoedd,
A phen aig cyff Ieuan oedd;
Derfel o gorph Llywelyn,
Derw a gae lle bu dur gwyn,
Gwr yn y Mars, a'i arswyd
Ffodd llu, rhag llîn Gruffydd Llwyd."

Tudur Aled a ymddengys fel pe bai yn ofni anturio ar y tir hwn, gan nad oes nemawr o ddarnau achyddol yn ei waith. Dangosodd yn hyn ei wybodaeth o wir dueddiad ei feddwl; canys er fod y canlynol yn wych, nid oes un rhagoriaeth ynddo:—

"O nŷth Rhydderch, i'th wreiddiwyd,
Bu fyw'n Llew, fab Iefan Llwyd,
Cyfathrach at brif achoedd,
Cloi Mon at waed Clement oedd;
Cnawdlwyth Ieirll, cenedl i'th ôl
Ceirw sŷ goed, Corsygedol."

Mwy cyson a thafod clebrog Lewis oedd achyddiaeth; a gwelwn yn ei gyfansoddiadau ef y darnau goreu o farddoniaeth Achyddol yn y Gymraeg, neu un iaith arall. Rhedant y llinellau canlynol yn rhyfedd o rwydd;—

"Breiniawl wyt o'r Barwnwaed,
Barwn Ystepltwn nos daed;
Davydd Goch, Duw rydd o gylch,
A dau Iago'n d' ogylch;
Mab wyt i roi i'm y budd,
Wyr Adam o Varedydd;
Ab Madog a'i ymogawr;
Ab Adam walch y byd mawr,
Ab Rhys oedd Bwmparis hael;
Ab Ivor byw ei avael;
Ab Gruffydd a'r meirch rhuddell,
Ab Ieuan wyt, heb un gwell;
Ab Ivor purwr gwir per,
Ab Phylip a'r pump Fowler;
Ab Einion galon glan Gwy,
O ach cenedl uwch Conwy;
Ab Llywarch barch hyd y bedd,
Ab Brân Emprwr o Wynedd;
Ab Dinawal o'r dalaith,
Ab Einydd iarll ban oedd iaith;

Ab Alaw'n Aberfraw bu,
Ab Alasar heb lysu;
Ab Tudwal mal gwyr Maelawr,
O dir Mon ab Rhodri Mawr;
O'r bonedd uchar Ddafydd!
Impyn wyd un gamp a Nudd;
Gorau un ei betigryw,
O Von i wlad Vynyw."

II.—BARDDONIAETH DDESGRYFIOL, (*Descriptive Poetry*).

Gofyn hwn bwerau tebygol i'r blaenaf ond mwy galluog. Yr oedd gormodd o'r natur draethodaidd, a drychfeddyliol yn Gutyn Owain a Thudur Aled iddynt ragori mewn desgryfiadau o bethau gweledig ac allanol; ac efallai ystyrient y byddai yn iselu barddoniaeth i ddarlunio gwisgoedd marchogion, arfau, a phethau perthynol; yn enwedig pan oedd rhagfarn barddonol yr oes yn erbyn y fath arferiad. Ond pan ddywedaf nad oedd un o'r ddau feirdd enwog, a galluog hyn yn rhagori mewn desgryfiadau, cyfeiriaf at ddesgryfiad o wisgoedd milwraidd yn unig; ac y mae yn fwy gofynol i mi wneud y sylwad gan nad oes mewn un iaith, na gwlad ddim yn rhagori ar gywydd y March—Dr. Young sy'n dod nesaf atto. Dylwn hefyd addef nad oedd yr arwyddfeirdd yn anrhydeddus yn y 15fed ganrif, a bod Lewis Glyn Cothi. gwr digyffelyb yn y ganghen hon, yn cael ei ddiystyru a'i gyfrif yn *glerwr* gan y beirdd cyfoesol. Rhy faith fyddai rhoddi enghreifftiau yma, am hynny edryched y darllenydd ar ddesgryfiad *Brigandine* yn nhudalen 159 Cyf I. ac ar hanes brwydr Banbury. Desgryfiad o'r *tournament* yn Abermarlais hefyd a deilynga sylw.

III.—BARDDONIAETH ARWRAIDD, (*Heroic Poetry*).

Trueni mawr yw na ellir cyfrif beirdd Cymru, ac yn enwedig beirdd yr oes dan sylw, mewn un ystyriaeth mwy anrhydeddus, na darlunwyr arferion gwladol, ac opiniynau tymhorol. Yr oeddent yn haneswyr cywir o'r pethau dan eu sylw; ond ni haeddant y parch dyledus i ddynion a ddefnyddient eu galluoedd i daenu moesau dda, ac i ddangos mai nid y cadfaes oedd yr unig le lle dylasai pendefig ddangos ei wybodaeth a'i ddoethineb; am hynny cadwaf oddiwrthynt y clod o fod yn ddysgawdwyr yr anwybodus, hyfforddwyr y dall, a rhybyddwyr y balch a'r terfysglyd. Anfynych ceir son am ddaioni moesol yn eu cyfansoddiadau—anfynych gwelir hwy yn cyfodi yn uwch na gwastadedd tymherau, meddyliau, ac arferion eu hoes; ac yn lle bod yn hyfforddwyr ceir ynddynt hwy fynychaf bleidwyr cryfaf tueddiadau gwaedlyd yr amser. Gwneud hyn yw gwaith gwir farddoniaeth; ond yma nid yw Lewis G. Cothi yn haeddianol o ddim clod. Tudur Aled a Gutyn Owain ynt y teilyngaf; beirdd rhagorol ynt y ddau, ond gwahanant yn hyn, fod Tudur yn danllyd, yn rymus, ac yn ddyrchafedig, a Gutyn yn esmwyth, yn gall, ac yn deimladwy. Ym Marwnad Rhobert ab Shon o Degeingl, gofyn Tudur,—

"Pwy sy *hael*? pwy sy helwr?
Pwy'n LLEW ag OEN? pwy'n lle gwr?
* * * * * * * *
Bwrwch Dysg, braich deau ysgol,
Beth a ŵyr dŷn, byth ar d'ol?"

Ni chafodd yr ymdrech ganmoladwy o uno dyngarwch ynghyd a dewrder gwladwriaethol, ond ychydig o efelychwyr; ond dengys Gutyn gall, gyda thynerwch mawr, fod mynwes deimladwy yn un o'r pethau teilyngaf perthynol i ddyn;—

"Hyd o waed Dafydd, wyt ti,
Hywel, *lawn o haelioni.*"

Perthyn darluniad eglur, a pherffaith o'r rhannau temladwy a thyner o ragoriaeth arwraidd, i uchelaf ddosbarthau barddoniaeth. Gellid ei gyflawni gan wir feirdd yn unig, lle bydd meddyliau gwybodus a dychymygol yn rhoddi sylwedd i deimladau goreu y galon ddynol; ond yr oedd y beirdd mewn perthynas rhy agos a chynnyrfiadau y wlad i'r fath olygiadau lewyrchu ar eu meddyliau, ac yn cael eu rhwymo yn rhy gyfyng i'w hadrodd gan lyffetheiriau cynghanedd. Rhed yr yspryd clodfawr ar hyd y Mabinogion; ond ni pherthyn i neb o'r beirdd ond y ddau a enwir uchod. Rhagorant Tudur Aled a Gutyn Owain ar holl feirdd eu hoes yn nyfnder eu teimladau, tanbeidrwydd eu cyfansoddiadau, ac yn eu hagoshâd i wir athronyddiaeth, ond rhaid cyfaddef mai Lewis Glyn Cothi yw y blaenaf o'r Beirdd herodaidd, gan fod ei waith yn llawn o gyfeiriadau arwyddiol. Nid oedd yn ei elfen mewn un dosparth arall. Yr oedd Lewis yn rhan o ysbryd ac anian, o feddyliau a theimladau ei oes; a darlunia y rhai hyn gyda chywirdeb rhyfeddol, heb godi yn uwch ac heb gwympo yn îs. Barddoniaeth Lewis yw'r esboniad goreu a ellir gael ar hanes y 15fed ganrif.

IV.—Barddoniaeth Arallegol, (*Allegoric Poetry*).

A ffurfia ran arall o farddoniaeth herodaidd ein gwlad. Gelwir hwynt "Cywyddau Brut," a defnyddir ynddynt arwyddion neu ddyfeisiau boneddion pan nad oedd lle i ddweud eu henwau. Defnyddir hwy gan Iolo Goch yn fynych pan oedd Owain Glyndwr ar goll; cyfryfir fod Rhys Goch o Eryri yn rhagori mewn cyfeiriadau dammegol; a cheir mynych enghreifftiau o honynt yn ngwaith Lewis Glyn Cothi. Wrth son am Richard y 3dydd, dywed,—

"Y llew a aned a aeth yn llwynog
I gadw'r deyrnas wedi'r draenog;"

a geilw ef, yn "faedd danneddog," a "tharw cryv-vraisg Caer Efrog." Yn y llinellau canlynol cyfeiria Huw Morus dan enwau dammegol at bleidiau Charles I a Chromwell,—

"Os happia i'r Arth gyfodi o'i gwâl,
A chware a'r Llew ac ynnill ga'l
Bydd siwr imi, am fy Marwnad sâl
Deilwng Daledigaeth."

Nid yw Huw Morus yn dod o fewn y terfynau herodaidd; a rhaid imi o fy anfodd ei adael heb ddweud rhagor am dano na'i fod yn fardd rhagorol, ac iddo gyfansoddi y dychan gerddi goreu yn y iaith. Perthyn barddoniaeth ddammegol yn neillduol i Gymru; a'r diweddaf ac efallai y goreu o'r fath gyfansoddiadau yw'r hen gân, "Prophwydoliaeth Merddin." Sonir yn hon am "Owain lawgoch," "Y gath a'r wenci," a llawer eraill o gyfeiriadau dammegol herodaidd; ac yr wyf bron yn credu fod gan Huw Morus law yn ei gwneuthuriad, o herwydd grym y cyfansoddiad ac esmwythder y iaith.

Dechreuodd herodaeth mewn angheurheidrwydd, ond mewn ystod amser aeth i fod yn brif alwad ac arferiad oes; a barddoniaeth herodaidd oedd y iaith yn mha un ei hyspyswyd—y drych yn mha un ei hadlewyrchwyd. Ar dir y frwydr pan nad oeddent rhyfelwyr mor reolaidd ac ydynt yn awr, yr oeddent arwyddion herodaidd o'r defnyddioldeb mwyaf; ond yn awr pan mae dynion yn dechreu blasu ar fywyd heddychlawn nid yw barddoniaeth herodaidd o gymmaint pwys; a theilynga sylw am rinweddau hollol wahanol. Cyfaddefaf nad yw teilyngdod barddonol y rhan herodaidd yn llawer; a chyfrifaf farddoniaeth arwyddiol Cymru, yn fwy haeddiannol o ystyriaeth fel cyfansoddiadau neu *ddocuments* hanesyddol. Teflir

llawer o oleuni ar y rhan dywyll honno o hanesoedd Lloegr a Chymru—amser rhyfeloedd y Rhosynau, fel y cenfyddir oddiwrth fyr draethawd Tegid yn yr ail gyfrol o waith Lewis Glyn Cothi. Dengys hefyd ddechreuad arwyddion, a hanes herodaidd teuluoedd Cymru; ond heblaw hyn y mae o'r defnydd mwyaf lleshaol fel darluniad o fywyd, teimladau, ac arferiadau y Cymry yn y rhan mwyaf clodforus o'u hanes lenyddol.

Yn yr amser dan sylw, yr oedd barddoniaeth, ac yn enwedig barddoniaeth herodaidd Cymru yn fwyaf ei pherffeithrwydd; ond gyda'r Undeb darfu bywyd ac egni y Dywysogaeth. Pan ddisgynodd Cymru i gyflwr Seren osgordd, yn troi oddiamgylch Lloegr ei phlaned—pan ufuddhaent ei henwogion frenhinoedd ereill—a phan hoffent filwriaeth yn unig fel offerynau mewn dwylaw arall, aeth y Dywysogaeth yn llesg; a chollodd ei henwogrwydd llenyddol, efallai fyth i'w adynnill. Mewn rhai llythyron yn y *Silurian* rai blynyddau yn ol, ymdrechais dan yr enw "C," i ddangos fod Cymru yn y bymthegfed ganrif yn llawer mwy enwog mewn dealldwriaeth nag oedd Lloegr; ac yn yr amser dan sylw llewyrchodd ei barddoniaeth yn ei llawn ogoniant, tra yr oedd Lloegr yn ol cyffesiad Esgob Percy, Thomas Campbell, a H. Ellis heb ddim teilwng o sylw cyn oes Elizabeth. O'r amser hyn allan parhaodd i iselu, a chollodd herodaeth ei gafael ar feddyliau dynion, i roddi lle i gynnyrfiadau crefyddol a gwladol. Canlynwyd hi yn Nghymru gan ganiadau moesol Huw Morus; ac yn Lloegr ffurfiodd "Faery Queen" Spenser ei marwol gân. Tynodd Harri'r 7fed a'r Wythfed y bon ddwyr dan eu traed; diystyrwyd yr *Aristocracy*; a diflanodd gogoniant marchyddol o ar wyneb daear. Ond tra bydd tueddiad mewn dynion i ymofyn am gyflyrau gwell, parhâ yr egni milwraidd a marchyddol i reoli eu hymddygiadau. Ymofynent y marchogion am y Grâal (gwel Schulz); bu doethion Europ wedi hynny yn chwilio am y *Philosopher's Stone*; ac er ein bod wedi troi ein cleddyfau yn grymmanau, yr ydym hyd nod yn awr yn defnyddio'r morthwyl a'r ysgrifell gyda'r un penderfyniad i wneud y ddaear yn Ail Baradwys.

Merthyr Tydfil. T. Stephens.

Y DRINDOD.

LLYTHYR IV.

Mr. Ymofynydd,—Yr wyf yn gobeithio nad yw eich ddarllenwyr yn blino arnaf, oherwydd amlder a helaethrwydd fy llythyron; modd bynnag, gallaf ddywedyd yn hyderus nad oes ond un amcan gennyf mewn golwg wrth ysgrifenu, sef ymdrechu dros y gwir ac yn erbyn yr hyn a ymddengys i mi yn gyfeiliornad llawn o'r canlyniadau mwyaf eu pwys. Dim llai nag eulun addoliaeth neu wir addoliad; cyssur neu drueni; nefoedd neu uffern, sydd yn ymddibynu ar y gred a ffurfir mewn perthynas i Dduw a'i ddibenion gogoneddus.

Wedi methu cael un prawf dros drindod yn undod hyd yn hyn, a'n gelynion eu hunain yn farnwyr, deuwn yn awr at y prawf a ddychymygir fod yn gynnwysedig yngwaith yr enw Jehofah a Sanct yn cael eu harfer dair gwaith am Dduw yn yr un adnod neu ymadrodd.

Num. vi. 24-26. Bendithied yr Arglwydd (Jehofah) di, a chadwed di; a llewyrched yr Arglwydd (Jehofah) ei wyneb arnat; dyrchafed yr Arglwydd (Jehofah) ei wyneb arnat a rhodded it dangnefedd.

Esa. vi. 3. Sanct, Sanct, Sanct, yw Arglwydd Dduw y lluoedd, yr holl ddaear sydd lawn o'i ogoniant ef.

"Y mae'n fwy na thebyg fod cyfeiriad distaw at drindod o bersonau yn y duwdod yn y bendithiad a orchymynwyd gan Jehofah ei hun i gael ei pharablu uwch ben pobl Israel gan yr offeiriaid dan y gyfraith, Num. vi. 24-26; ac hefyd fod yr un athrawiaeth ogoneddus yn cael ei chydnabod yn addoliad dwys a phwysig yr angylion, yn Esa. vi. 3. Dat. iv. 8." Wardlaw, apud Wilson.

Wel, yn ol tyb Wardlaw, chwi welwch mae trindod o *bersonau* yn yr hanfod ddwyfol, i'w chanfod yn yr adnodau uchod. Ond y mae fy llygaid i yn rhy wan i ganfod hynny; ac nid allaf gredu y gall neb ganfod hynny chwaith, heb wisgo y "Spectacl" drindodaidd yn gyntaf. Beth, meddaf, onid tri *Jehofah*, tri *Sanct*, sydd i ganfod yn yr adnodau uchod yn ol y llythyren? Y mae Jehofah a Sanct yn cael eu harfer *dair* gwaith ynddynt, ond nid oes person *unwaith*, dim *un waith* ynddynt!! Y mae Wardlaw ei hun yn dywedyd mai cyfeiriaid *distaw* sydd yma at drindod o bersonau; îe, *distaw*, a distaw *iawn* hefyd; cyfeiriad mud yn hyttrach, gan nad oes ynddynt *un gair*, dim sill am berson oll, Ond pwy o'r trindodiaid eu hunain sy'n foddlon addef fod tri Jehofah, tri Sanct, tri Duw yn cael ei ddysgu yn yr adnodau dan sylw? Neb: nac oes un. Ac nid oes y fath beth a thri Jehofah, tri sanct, a thri duw yn cael ei osod allan ynddynt chwaith, llawer llai, tri pherson, neu "drindod o bersonau" yn yr hanfod ddwyfol, serch fod yr enw yn cael ei adrodd dair gwaith. Oherwydd yn

1 Y mae iaith o'r fath yn aml i'w chael yn yr ysgrythyr, lle mae enw yn cael ei arfer ragor nag un waith, ac nid oes neb yn casglu fod yno ragor nag un person i'w ddeall. Yn 2 Sam. xviii. 33. am Absalom, "A'r brenin a gyffrôdd, ac a aeth i fynu i ystafell y porth, ac a wylodd, ac fel hyn y dywedodd efe wrth fyned; O fy *mab* Absalom, fy MAB, fy MAB Absalom." A oes yma, wyddis, gyfeiriad distaw at drinded o bersonau yn hanfod Absalom? Y mae'r gair *daear* yn cael ei arfer dair gwaith yn Jer. xxii. 29. "O *ddaear*, *ddaear*, *ddaear*, gwrandaw air yr Arglwydd." Felly Laban yn Gen. xxix. 10. "A phan welodd Jacob Rachel ferch Laban, brawd ei fam, a phraidd Laban brawd ei fam; yna y nesaodd Jacob, ac a dreiglodd y garreg oddiar enau y pydew; ac a ddyfrhaodd braidd Laban, brawd ei fam." Ni a gawn hefyd teml yr Arglwydd dair gwaith yn Jer. vii. 4. "Nac ymddiriedwch mewn geiriau celwyddog, gan ddywedyd *teml yr Arglwydd, teml yr Arglwydd, teml yr Arglwydd* ydynt." A oes tair daear, a thair teml i'w deall oddiwrth y cyfryw arferiad? Nac oes; ac ni ddylid casglu trindod chwaith oddiwrth yr adnodau dan sylw.

Yr wyf yn sylwi yn nesaf fod amrywiol o fannau, lluaws mawr, mawr iawn o fannau, lle nad arferir enw yr Arglwydd ond *un waith*. Felly, undod y Jehofah yn sicr sydd ar ei draed ar y tir hwn etto.

Etto, y mae rhai mannau lle nad yw enw Duw yn cael ei adrodd ond dwy waith, ac felly, ar dir trindodiaeth, nid oes ond dau berson dwyfol yn y duwdod. Esa. xxv. 9. "A'r dydd hwnnw y dywedir, wele dyma ein *Duw* ni; gobeithiasom ynddo, ac efe a'n cadw; dyma yr *Arglwydd*, gobeithiasom ynddo." Matt. xxvii. 46. Ac ynghylch y nawfed awr y llefodd yr Iesu a llef uchel, gan ddywedyd, *Eli, Eli,* Lama Sabachthani, hynny yw, fy *Nuw*, fy *Nuw*, paham y'm gadewaist.' Ond yr un peth fyddai casglu oddiwrth hyn fod dau berson dwyfol yn y duwdod ag y fyddai casglu fod Jerusalem yn ddwy ddinas oddiwrth eiriau'r Iesu pan yn dywedyd "O Jerusalem! Jerusalem—pa sawl gwaith y mynaswn gasglu dy blant ynghyd."

Os prawf y dull hwn ragor nag un, fe brawf ormod, oblegid y mae enw Duw yn cael ei arfer *bedair* gwaith yn Ecs. ii. 24, 25. "A *Duw* a glybu eu huchenaid hwynt; a *Duw* a gofiodd ei gyfammod ag Abraham, ag Isaac, ac a Jacob, a *Duw* a edrychodd ar blant Israel, *Duw* hefyd a gydnabu a hwynt." iii. 6. "Ac

efe a ddywedodd, Myfi yw *Duw* dy dad, *Duw* Abraham, *Duw* Isaac, a *Duw* Jacob." Ho, ho, o addef tri, dyma bedwar wedi ymlusgo i mewn, ac ni wn i ddim llai na ddaw rhagor etto ar y tir hwn, a hynny yn ddigon cyfreithlon hefyd; o leiaf gwn hyn, sef fod y gair Arglwydd yn cael ei arfer *ddwy waith ar bymtheg* yn xxix Salm. Digon bellach, hyd yn oed i drindodwr, 'does bossibl!! Ddarllenydd hynaws, a wyt ti yn cofio'r *argument* yn awr? Dyma hi. Mae tri pherson, oblegid mae Jehofah a Sanct yn cael eu harfer dair gwaith am Dduw. Nage, medd yr un *arguments*, nid felly, dau berson sydd oblegid nid yw ond dwy waith yn Esaia a Mathew; na nid felly etto; mae pedwar person, oblegid cair y gair Duw bedair gwaith yn Ecsodus mewn dau fan. *Stop* bellach, medd y trindodwr, dyna ormod. Na wnaf meddaf finnau, os mynni di *dri*, ti *gai* gymeryd rhagor; y mae'n rhaid i ti dderbyn pedwar, ïe, a dau ar bymtheg hefyd. Wel, cymmer hwynt a bydd ddistaw.

Nid oes dim yn rhagor mewn ymadroddion o'r fath na iaith frwd teimlad cyffrous, a dull Hebreaidd o lefaru, fel y gwelwn oddiwrth amrywiol o fannau eraill; megis, Jerusalem, Jerusalem.—Gwae, gwae, gwae i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear.—Dymchwelaf, dymchwelaf, dymchwelaf hi Ezec. xxi. 21, 27. Iaith gref ydyw, yn dangos tosturi yn y blaenaf, a gwae yn yr olaf. Arferir iaith o'r fath yn fynych yn ein plith ni i ddangos cyffroad neu syndod y meddwl; megis pan y dywedwn, "Dafydd, Dafydd, paham y gwnaethost fel hyn!"

Caf gynorthwy gan y trindodiaid eu hunain yma etto, fel ymhob man arall braidd, i symmud yr anhawsdra hefyd. Ymhlith eraill, dywed yr enwog Calfin fel hyn. "Darfu i'r hynafiaid, ebefe, ddwyn y rhan hon yn erbyn yr Ariaid, i brofi fod tri pherson yn undod y sylwedd dwyfol. Nid yw'r dyb hon i'w gwrthod; ond wrth ymwneud a hereticiaid, buasai yn well gennyf ddwyn tystiolaeth fwy safadwy; oblegid y maent yn cael eu gwneuthur yn fwy ystyfnig, ac y maent yn ymffrostio, pan yr ymosodir arnynt trwy resymau anfoddlonol; gan y byddai yn hawdd iddynt ddangos yn y rhan hon, ac mewn rhannau eraill o'r ysgrythyr, fod adrodd yr un gair dair gwaith yn arwyddoccau perffeithrwydd * * * Yr wyf yn cael fy nhueddu i feddwl y dylid dwyn testunau mwy eglur i brofi prif erthygl ein ffydd, rhag i ni ddyfod yn wawd i'r hereticiaid. Ac yn ddiamau y mae'r adroddiad yma yn gosod allan ddiwydrwydd diflino; fel pe y dywedasai y prophwyd, nid oes dim diwedd i beroriaeth angylion wrth adseinio moliant Duw; fod ei sanctteiddrwydd ef, fel pe bai, yn rhoddi i ni ddefnyddiau anhyspyddadwy." Gallwn ddifynu trindodiaid eraill i'r un pwrpas; ond wele ddigon ar y dystiolaeth *ddistaw*; ie, distaw, mor ddistaw a'r bedd am drindod, fi wn. Af ymlaen yn awr at y prawf nesaf a ddygir ymlaen dros drindod o bersonau; sef,

Esa. xxxiv. 16. "Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd * * * Canys fy ngenau, efe a orchymynodd a'i Ysbryd, efe a'u casglodd, hwynt." Pa brawf sydd yma o'r drindod nis gwn. Yr eithaf a all yr adnod hon brofi ydyw dau neu dri o oruchwylwyr; ond nid ydyw yn gosod allan, nac yn cynnwys fod pob un o'r rhain yn Dduw hollalluog. A gadael fod yr adnod yn bur, a chwedi ei chyfieithu yn iawn nid oes ynddi ddim ag sydd yn croesi undodiaeth yn y mesur lleiaf, oblegid nid yw'r gair Jehofah yn cael ei gymwyso ond i un yn unig o'r personau a enwir. Y mae swn yr adnod yn gosod allan yn eglur *un* a dim ond UN bod yn unig; oblegid yr un peth sydd i ni ddeall wrth enau ac ysbryd Jehofah, a Jehofah ei hun. Yn y Beibl y mae ysbryd unrhyw berson yn sefyll yn aml am y person ei hun; megis yn 1 Cor. xvi. 17, 18. "Ac yr ydwyf yn llawen am ddyfodiad Stephanas, Ffortunatus, ac Achaicus * * * canys hwy a esmwythasant ar fy ysbryd i, a'r eiddoch chwithau:" hynny yw, arnaf fi ac arnoch chwithau. Fel esiampl o lawer eraill sydd yn cyduno ag ef, difynaf farn Calfin unwaith etto, yr hwn sydd yn ymwrthod

yn holloll a'r dyb fod trindod yn cael ei dysgu yma. "Er fod yspryd, y genau a gair, neu ymadrodd, ebefe, yn fynych yn gyfystyr, ac yr oedd yr Hebreaid yn arfer ail-adrodd yr un peth mewn geiriau gwahanol, etto y mae'r prophwyd yma yn cyfeirio mewn modd ardderchog at yr anadl gan yr hwn y mae iaith yn cael ei ffurfio a'i pharablu; fel pe y dywedasai, y mae'r brophwydoliaeth hon yn ddigon effeithiol, oblegid yr un Duw a orchymynodd i'r anifeiliaid drigianu Idumea a'u tynu hwynt ynghyd hefyd, dim ond iddo anadlu yn unig." Felly, dyna hona etto wedi ei throi heibio.

Yr adnod nesaf, a'r olaf hefyd yn yr Hen Destament, a gaf sylwi arni yw, Esa. xlviii. 16. "Nesewch attaf, gwrandewch hyn; ni leferais o'r cyntaf yn ddirgel; er y pryd y mae hynny, yr ydwyf finnau yno: ac yn awr yr Arglwydd Dduw a'i Yspryd a'm hanfonodd." Ar yr adnod hon yr wyf yn sylwi yn gyntaf mai yr un yw Duw a'i Yspryd. "*Yspryd yw Duw*, a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn yspryd a gwirionedd." Os gwahanir Yspryd Duw oddiwrtho, a'i wneuthur yn berson gwahanol iddo, pa beth all fod ar ol wedi'n? Dim. Yr hyn yw atheistiaeth *rank*. Yn wir, y mae yn ymddangos i mi fod pob ymdrech i rannu Duw yn arwain a atheistiaeth. Rhanwch Fod *diranedig*; lladdwch fod anfarwol; gosodwch derfyn i Fod trag'wyddol; dechreuad bodoliaeth i Fod diddechreu, ac ni fydd gennych un Duw wedi'n. Yn nesaf, y mae dywedyd mai Iesu Grist yw'r person sydd yn cael ei anfon yn y testun yn cymeryd yn ganiattaol y pwngc mewn dadl. Y mae'n fwy natturiol i feddwl mai 'r prophwyd ei hun sydd yn cael ei anfon, oblegid y mae'n wrthun i feddwl fod yr ail berson yn y duwdod yn cael ei anfon gan neb, ag yntau yn gymmaint Duw a'r hwn sydd yn ei anfon ef. Sylwer hefyd na ellir rhedeg i'r lloches gyffredin rhag y fath ymosodiadau, sef, mai fel yr *oedd yn ddyn* yr oedd yn cael ei anfon, oblegid nid oedd yr ail berson etto wedi ymgnawdoli. Felly y mae'n bur amlwg i mi mai Esaia sydd yn llefaru yma; yn y rhan gyntaf ym mherson Duw; yn y rhan olaf yn ei berson ei hun. Gwyddom hyn, o leiaf, fod y prophwyd yn aml yn neidio oddiwrth un peth at beth arall, yn ddisymwyth, heb roddi un rhybudd; megis yn Esa. lxiii. 6. 7. "A mi a *sathraf* y bobl yn fy *nig*, ac a'u meddwaf hwynt yn fy llidiowgrwydd. *Cofiaf* drugareddau'r Arglwydd, yn ol yr hyn a roddodd Duw i ni, ac amlder ei ddaioni i dy Israel." Yn y rhan flaenaf, Duw sydd yn llefaru, yn ddiddadl; ac yn yr olaf, y prophwyd ei hun; ac etto nid oes yma un rhybudd fod y personau yn cyfnewid, ond yn unig yr hyn a esyd y *synwyr* allan.

"Y mae llawer," medd Calfin, "yn ei chymwyso at Grist; ond nid ydynt yn cael eu cefnogi gan iaith y prophwyd; a dylem ochelyd dehongliadau gorthrechol a thraws."

Un trindodwr enwog arall a ddywed fel hyn, "Fel pe buasai'r prophwyd yn dywedyd, ni chuddiais ddim oddiwrthych o'r hyn a orchymynodd Duw i mi i bregethu i chwi; ond dywedais yn amlwg ac eglur y cyfan a ddatguddiodd Duw i mi.

Y mae Rosenmuller, Luther, Le Clerc, ac amrywiol eraill, o'r farn mai'r prophwyd sydd yn llefaru yn y rhan olaf. Ac os ydyw trindodiaid eu hunain yn eu gwrthod, ai nid teg i minnau gael yr un fraint.

Wele ni bellach wedi chwilio rhannau yr Hen Destament, lle dychymygir fod trindod neu luosogrwydd o bersonau yn cael eu gosod allan, ac wedi methu ei chael na dim amgen na "dyn gwellt" o ddyfais dynion ofergoelus. Chwiliasom am y dyb boblogaidd yn y gair Elohim, Duwiau, 'does dim yno o honi; yr eithaf a ellir gasglu oddiwrth y gair hwn yw lluosowgrwydd o dduwiau, yr hyn sydd mor wrthun gan y trindodiaid a minnau. Gwelsom fod y gair hwn yn cael ei arfer am Moses, Dafydd a Solomon; am y llo aur; am Dagon, Milcom, Baal berith,

Baalzebub ac eraill; lle nid all fod lluosowgrwydd o un math i'w ganfod. Sylwasom nad yw dull o'r fath ddim amgen nag a arferir i osod allan ardderchawgrwydd. Chwiliasom am drindod yn yr ymadroddion "Gwnawn ddyn; cymmysgwn eu hieithoedd" &c. ond methasom ei chael, na thebyg iddi chwaith. Yr un modd ddangosasom nad oes trindod i'w chael yn yr adroddiad o'r gair Jehofah a Sanct dair gwaith; onide buasai tair daear, tri Absalom hefyd. Nad yw y fath adroddiad ond dangos bywiogrwydd y teimlad ac nid lluosogrwydd o bersonau. A phe byddai tri rhyw beth i'w casglu, tri Jehofah y fyddent, ac nid tri pherson. Sylwasom hefyd, pe byddai casgliad y trindodiaid yn deg, y byddai yr un mor deg i gasglu nad oes ond dau berson, oddiwrth waith Crist yn adrodd y gair Duw ddwywaith yn unig. Yn nesaf, dangosasom fod llawer o drindodiaid dysgedig yn ymwrthod yn hollol a'r casgliad a dynnir oddiwrth y fath ymadroddiondros drindod.—Wrth derfynu crybwyllaf un sylw sydd o gymmaint pwys a dim a ymddangosodd etto; sef, os cafodd dirgelwch y drindod ei ddatguddio dan yr hen oruchwiliaeth, pa fodd y mae cyfrif am y ffaith fod holl gorph yr Iuddewon heb ddeall hynny erioed. Nid rhesymol ydyw meddwl y buasai i Dduw wneuthur cymmaint a chynnifer o wrthiau drostynt, neu yn hyttrach dros eu hathrawiaeth, a hwythau, ar y pryd yn hereticiaid damniol, os gwir trindodiaeth.—Nid yw Iesu Grist chwaith yn sôu dim am eu bod yn cyfeiliorni ynghylch gwrthrych eu haddoliad, ond yn eu sicrhau ynddo; er ei fod yn fynych yn eu ceryddu yn llym am eu hanghrediniaeth mewn pethau eraill, "Gwae chwi ysgrifenyddion, a phariseaid, ragrithwyr," meddai ef yn fynych wrth y rhai oeddent yn degymu y mintis, yr anis a'r cwmin, tra yn esgeuluso barn, trugaredd a gwirionedd: ond dim gair am y gwae mwy oedd yn eu haros am beidio addoli y tri yn un!! UNDODWR OEDD CRIST.

A ydyw yn ormod i mi yn awr i dynnu y casgliad hwn, nad oes dim o ddirgelwch y drindod i'w gael yn yr Hen Destament, canad beth am y Newydd? Chwiliwn hwnnw etto, os caniatta Duw einioes a iechyd i'ch ewyllysiwr da.

O. EVANS.

COSP DDIRPRWYOL,

(*Parhâd o tudal.* 62.)

Mr. Angelini a'r Ordinari parchedig.

Scene.—Cell yn nhy yr Ordinari.

Mr. Angelini. Mae yn awr dri mis er pan y buom yn ymweled ddiweddaf. Oddiar hynny etto, mae testun ein hymddiddan wedi llanw fy holl fryd. Yr ydoedd ei duedd yn ymddangos i mi mor ofnadwy o bwysig, fel na allwn orphwys yn foddlongar nes i'm meddwl gyraedd rhyw gasgliad i ymddibynnu arno.

Ordinari. Gobeithio ynte eich bod yn llwyddiannus. Ond beth a grëodd ynnoch y fath anesmwythder? Gallwn feddwl eich bod wedi ymlaweuhau yn fawr rhyngoch a chwi eich hunan, am na chaniatawyd i chwi i farw yn eich hunandwyll.

A. Ië. Yr ydwyf yn hollol gyttuno â chwi, pe buaswn yn cael marw, mai hunan-dwyll o'r mwyaf fuasai yr achos o'm dioddefaint; oblegid yn awr Syr yr ydwyf wedi fy *nhroi yn hollol i goleddu eich egwyddorion chwi*: etto pa fodd bynnag gall fod rhyngom wahaniaeth o'r mwyaf sylweddol wrth eu cymmwyso at

athrawiaethau ereill. A gaf fi ofyn eich hynawsedd i ymddiddan a mi ychydig ym mhellach?

O. Gydag ewyllys fy nghalon, pe gwybyddwn y gallwn fod o un gwasanaeth i chwi: ond beth oeddech yn gyfeirio atto?

A. Mai twyll ydyw athrawiaeth dirprwyaeth ei hunan, fel y mae yn cael ei dal gan Gristnogion yn gyffredinol.

O. Twyll!!

A. Ie twyll. Onid ydyw yn rhedeg yn groes i bob un o'r egwyddorion, yn ol y rhai y profasoch tu hwnt i bob amheuaeth na ellid fy nerbyn i yn ddirprwy yn lle Fauntleroy anffodiog?

O. Er na allech chwi gael eich derbyn yn ddirprwy yn ei le ef, pa fodd y mae hynna yn rhedeg yn groes i'r athrawiaeth Gristnogol o Ddirprwyaeth? Ydych chwi yn meddwl na fu ein Harglwydd Iesu Grist farw fel Dirprwy dros bechaduriaid?

A. Nid yn unig yr wyf yn barnu hynny, ond yn awr ymddengys i mi yn beth hollol ammhossibl.

O. Ar ba dir?

A. Oherwydd nas gallasai gael ei dderbyn.

O. Paham?

A. Gwyddoch gan ei fod yn ddieuog nad allasai gael ei gyhuddo o feiau rhai eraill: a'i dderbyn ef fel dirprwy am hynny, yn ol eich iaith chwi eich hunan, fyddai "rhoddi herr i reswn a deall cyffredin; heb son am gyfraith a chyfiawnder."

O. Mi a welaf beth sydd yn eich camarwain chwi. Yr ydych yn siarad am farwolaeth Crist fel pe na bae ond cyttundeb dynol, tra y mae i ni i'w hystyried yn hollol ddwyfol, a goruwch-naturiol; am hynny nid oes a fynno rheswm, a synwyr cyffredin; a chyfraeth ddynol, a chyfiawnder a hi.

A. Nag oes ef? A raid i ni fabwsiadu credo Tertullian, a dywedyd "*Credo quia impossibile*" *(yr ydwyf yn ei gredu oblegid ei fod yn ammhossibl)?* A ydym i briodoli ymddygiad i'r Hollalluog, oddiwrth yr hwn y mae y meddwl dynol yn ysgoi, pan y byddo yn ddiragfarn; ac yn ei ddiystyru fel peth gwrthun?

O. Nid ydyw eich golwg nac yn newydd, nac ar seilfaen safadwy. Yn nyddiau Paul yr oedd yr un athrawiaeth "i'r Iuddewon yn dramcwydd ac i'r Groegwyr yn ffolineb," ac etto y mae yn cynnwys profion o allu, a doethineb Duw.

A. Ond pa fodd mae i ni wybod hynny, os ydych yn cau allan reswm a deall cyffredin?

O. Nid ydyw rheswm a deall yn cael eu cau allan ond mor belled ac y maent yn analluog i amgyffred dirgeledigaethau Duw; neu fel y mae Paul yn galw'r athrawiaeth am Grist croeshoeliedig, "*Doethineb Duw mewn dirgelwch.*" Yr ydych yn cofio y darlun rhagorol hwnnw gan awdwr llyfr Job ar y testun hwn, "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? A elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd? Cyfuwch a'r nefoedd *ydyw*, beth a wnei di? dyfnach nag uffern *yw*, beth a elli di ei wybod? *Mae* ei fesur ef yn hwy na'r ddaear, ac yn llettach na'r mor." A ellwch chwi ryfeddu ynte, am nad ydyw ei ffyrdd ym mhob peth yn gydrâdd ac amgyffrediad creadur mor fychan ei alluoedd a dyn? Cofiwch, yr ydwyf yn dymuno arnoch, eiriau Paul, "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb."

A. Ond er ei bod yn wir nad allwn yn drwyadl amgyffred natur Duw, na'i weithredoedd mewn llawer ystyr; etto nid ydyw hyn yn un rheswm fod ei lywodraeth foesol, fel y mae wedi ei datguddio i ddyn, yn anamgyffredadwy.

O. Nag ydyw! Yr ydwyf yn bwrw ei fod. Pe bai dyn yn alluog i amgyffred

ffyrdd Duw, rhaid y byddai yn feddiaunol ar ddealldwriaeth yn dynesu at un ddwyfol. Yr ydoedd y prophwydi a'r Apostolion pa fodd bynnag yn ystyried y peth hwn yn wahanol iawn. "Nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi," medd yr Arglwydd ym mhrophwydoliaethau Isaiah, "ac nid eich ffyrdd chwi, yw fy ffyrdd i; canys fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly uwch yw fy ffyrdd i, na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i, na'ch meddyliau chwi." "O ddyfnder golud doethineb, a gwybodaeth Duw," medd Paul, "mor anchwiliadwy yw ei farnau ef! a'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt!" Chwi a addefwch mai ffyrdd moesol Duw ydyw ei farnedigaethau, a hynny hefyd fel y mae yn dal perthynas â dyn.

A. Paham ynte y gelwir arnaf i gredu un athrawiaeth, megis un ddadguddiedig, ac ymddwyn yn ei hol, os y bydd hi yn un anamgyffredadwy?

O. Yr ydych yn credu mil o bethau yn llawn mor anamgyffredadwy: ac y mae tu hwnt i'ch gallu i'w hammeu hwynt. Er siampl, ni ameuwch fyth y cysylltiad agos sydd rhwng eich meddwl a'ch corph; ond a allwch amgyffred natur y cysylltiad? Chwi a wyddoch y gallwch pan y mynnoch symmud eich corph, ond a allwch egluro pa fodd trwy ewyllysio yr ydych yn gallu symmud un cymmal? Mor afresymmol gan hynny fyddech pe baech yn eistedd i lawr yn ddigyffro, nes y gallech amgyffred yn ddigonol pa fodd yr ydych yn byw ac yn ymsymmud. Ni allwch amgyffred pa fodd y mae y pren yn cael ei lauw yn raddol a ffrwythau hardd, a pheraidd, ond a wrthodech chwi oherwydd hynny eu bwyta? Byddai eich ymddygiad yn hollol mor afresymmol pe baech yn gwrthod y llesoldeb sydd trwy farwolaeth Crist, am nad ydych yn gallu amgyffred yr egwyddorion ar y rhai yr oedd yn angenrheidol i'w cael.

A. Ymresymiad dattodiadol [cyffelybiaethol?] (analogical) ydyw hwnna. A ydych yn cofio pa fodd y darluniasoch y fath ymresymiad?

O. Er mai ymresymiad dattodiadol [cyffelybiaethol] yn unig ydyw hwn, ei ddiben ydyw egluro yn unig, ac nid camarwain eich deall.

A. Os ydyw yr athrawiaeth hon ynte yn anamgyffredadwy; sef fod Iesu er yn ddieuog wedi marw dros yr euog, fel y dywedwch chwi, ar ba dir y gallaf fi ei chredu fel bod rhesymol?

O. Ar y tir cadarnaf, fel y dangosaf yn y man: ond yn y cyfamser gadewch i mi sylwi, ein bod yn byw mewn byd o bethau anamgyffredadwy. Ychydig ydym yn ei wybod. Mae ein gwybodaeth yn cael ei chyfyngu at *facts* yn bennaf. Yn y *facts* hynny y mae yr un beunaf honno; sef fod Crist wedi marw "y cyfiawn dros yr anghyfiawn fel y dygai ni at Dduw."

A. Dyna y peth sydd i'w brofi. Pa le y mae eich prawf chwi?

O. Mae tystiolaeth Duw am ei Fab yn llawn o hono, "ac os ydych yn derbyn tystiolaeth dynion, y mae tystiolaeth Duw yn fwy."

A. Rhaid i'r testunau hynny at y rhai yr ydych yn cyfeirio, naill ai dioddef esboniad arall, neu i mi roddi fynu bob rhith hawl i ffurfio un meddwl am na cham na chymmwys, na gwirionedd nac anwiredd.

O. Nawr, Syr, a ydych chwi mewn prysurdeb yn rhyfygu i ystyried eich hun yn gymmwys i farnu beth sydd *gyfiawn, neu anghyfiawn—cam, neu gymmwys?*

A. Nid yn gyfangwbl: ond pan y byddo haeriad yn gofyn fy nghydsyniad; a ydyw ddim yn ganiataol i mi i'w chwilio; ac os yr ymddengys yn anghydgordiadol, a allaf fi ddim ei wrthod fel peth anwireddus?

O. Ond, Syr, nid ydyw eich barn yn anffaeledig. Pa fodd bynnag ni byddai ond gostyngeiddrwydd gweddaidd ynoch, i ymostwng i awdurdod Duw,

A. Syr, goddefwch i mi i ddywedyd mai fy nymuniad a'm myfyriad [ymgais] mwyaf yw rhoddi y parch mwyaf i awdurdod Duw; a phe bawn ond wedi fy *argyhoeddi* fod yr athrawiaeth hon a'i holl bethau anamgyffredadwy, o awdurdod

dwyfol mewn gwir, mi a'i derbyniwn hi gyda'r ymostyngiad mwyaf ewyllysgar a gwirioneddol. Ond fy nyled i'm fy hun yw boddloni fy nghydwybod. Gorchymmyna yr Ysgrythyr i ni "brofi pob peth;" ac i fod "yn barod bob amser i roddi atteb i bob un a ofyno i ni reswm am y gobaith sydd ynnom, gydag aeddfwynder ac ofn." Er mwyn gwneuthur hyn, rhaid i mi arfer fy neall, a barnu yr esboniad a roddir i rannau neillduol o'r Ysgrythyr. Nawr, os caf yn yr Ysgrythyr fod rhan pob un yn y diwedd yn ymddibynnu ar natur ei weithredoedd, ac afreidiol fyddai i mi yma i gyfeirio at yr aneirif brofion a geir o hyn, mi allaf ystyried yr athrawiaeth fod Crist wedi marw yn ddirprwy yn lle yr euog, nid yn unig yn groes i'r ysgrythyrau; ond fel athrawiaeth, a dywedyd yn dyner am dani, yr hon sydd groes hollol i reswm.

O. Pa fodd ynte y mae yn dichonadwy i chwi i gyfrif am yr oruchwyliaeth Gristnogol, *yr hon sydd a'i holl sail ar fod Crist wedi marw fel dirprwy dros bechaduriaid, neu i esbonio yr adnodau sydd yn dysgu hynny, y rhai ydynt mor amlyn y Cyfammod newydd?*

A. Rhoddwch glywed rhai o honynt.

O. Wrth brophwydo mae Esay yn dywedyd, "A'r Arglwydd a roddodd arno ef ein hanwireddau ni i gyd:" ac wrth lefaru am Grist, dywed Pedr, "Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y groes."

A. Nawr rhaid i chwi ganiatau i mi yma i arfer eich egwyddorion chwi eich hun. Mae y darluniad yn drawsymmudiadol (metaphorical) yn y testunau hyn. Mae anwireddau neu bechodau yn cael eu gosod allan megis llwyth neu faich, ac y mae y drawsymmudiad yn ddigon cymmwys ar un olwg, ond mewn cyfeiriad at yr euog yn unig; yr ydwyf yn dywedyd ar *un olwg* oblegid nad ydyw trawsymmudiad ddim yn gymmwys at bob rhan o'r hyn fyddo yn ei ddodi allan, neu o bob amgylchiad yn yr hwn y gellir ei olygu. Fe all llwyth neu faich gael ei gymmeryd i fynu neu ei osod i lawr; neu ei drosglwyddo o un i'r llall; ond peth personol yw enogrwydd ag sydd yn ei natur yn annhrosglwyddadwy. *Nid ydyw yn alluadwy i roddi anwiredd un ar y llall, ac nid ydyw yn ddealladwy mewn iaith.* Y mae pob testun o'r ysgrythyr am hynny yr hwn sydd yn darlunio anwiredd fel baich; neu trwy un gydmariaeth arall ag sydd yn dangos trosglwyddiad yn bossibl, os y deallir ef felly, yn dwyn y gydmariaeth ym mhellach o lawer na'i hystyr gyfreithlon, a dealladwy.

O. Ond er fod pechod yn ei natur yn annhrosglwyddadwy, gellir dywedyd i Iesu Grist ddwyn ein pechodau ni; a'u bod wedi eu gosod arno pan y dioddefodd y gosp am danynt.

A. Nawr Syr rhaid i mi *appealio* at eich tegwch chwi. Pa sawl gwaith y darfu i chwi eich hun sicrhau, yn y modd mwyaf penderfynol, mai gwirionedd annadleuadwy yw, "Nas gall fod cosp, lle nid oes bechod."

O. Syr, yr ydwyf yn addef wrthych fy mod o'r dechreu wedi cymmeryd yn ganiataol fod yr athrawiaeth o ddirprwyad Crist yn lle pechaduriaid yn un anamgyffredadwy. Dirgelwch Duw ydyw, ond nid ydyw am hynny yn afresymmol; yn fyrr, *athrawiaeth ydyw sydd uwchlaw rheswm; ond nid yn groes i reswm.*

A. Byddwch mor fwyn ag egluro eich geiriau, a gadewch i mi ddeall yn iawn beth ydych yn ei feddwl wrth ddywedyd *uwchlaw rheswm; a chroes i reswm.*

O. Pan y byddo rheswm yn methu amgyffred gwirionedd a dull athrawiaeth ysgrythyrol, yna yr ydwyf yn dywedyd fod yr athrawiaeth honno uwchlaw rheswm: a phe bae yn bossibl fod athrawiaeth yn yr ysgrythyr yr hon a ellid ei hamgyffred, neu sydd yn cael ei hamgyffred, ei bod yn hollol anwireddus, neu ammhossibl, yna yr ydwyf yn dywedyd fod yr athrawiaeth honno yn groes i reswm. Neu mewn geiriau eraill, y mae gosodiad uwchlaw rheswm, pan y byddom yn methu

ag amgyffred pa fodd y mae yn cael ei ddwyn oddiamgylch, ac yn groes i reswm, pan y byddom yn eglur amgyffred na all gael ei ddwyn oddiamgylch. Er siampl, tra y byddo dyn yn anwybodus o *Fathematics*, bydd y xlvii gosodiad yn llyfr cyntaf Euclid uwchlaw ei reswm ef, er ynddo ei hun yn wirionedd profadwy: ond byddai un gosodiad a fyddai yn gwrthddywedyd diwrthebair (axiom) neu egwyddorion dechreuol, yn groes i reswm.

A. Attolwg beth sydd mewn gosodiad yn ei wneuthur yn anwireddus neu yn ammhossibl?

O. Y mae gosodiad yn un anwireddus pan y byddo y drychfeddylian fyddo ynddo yn methu cydsefyll. Fe all hyn gymmeryd lle o herwydd naill ai bod gwrthddywediad, ac anghysondeb union-gyrch yn y drychfeddylian eu hunain, y naill yn cau allan y llall, megis mewn gwrthddywediad; neu o herwydd eu hangysondeb a rhyw wirionedd sylfaenedig arall gyda rhwn ni chydsafant.

A. Nawr, Syr, yr ydwyf wedi fy moddloni mor dda gan eich eglurhâd a'ch gwahaniaethad, nes ydwyf yn barod i adael i'r cwestiwn orphwys yn hollol ar yr hyn a ddywedasoch. Yr ydych chwi ynte yn dal fod derbyniad Iesu Grist fel dirprwy yn lle yr euog yn athrawiaeth wir, er ei bod yn anamgyffredadwy gyda golwg ar ei gwirionedd a'i dull, wrth yr hyn y meddyliwch ei bod uwchlaw rheswm. A ydyw hyn yn gosod allan eich meddwl yn deg?

O. Ydyw.

A. Nawr, o'r tu arall, yr ydwyf finnau yn dal fod yr athrawiaeth o ddirprwyad yn groes i reswm, *am fy mod yn amgyffred ei bod yn anwireddus ac ammhossibl*, yn gystal am fod y drychfeddyliau sydd ynddi yn methu cydsefyll, y naill a'r llall; a'u bod yn groes i wirioneddau eraill ag yndynt wedi eu sefydlu yn ddiysgog. Y cwestiwn mewn dadl ynte ydyw, pa un ai peth uwchlaw rheswm, neu beth croes i reswm yw derbyniad Crist fel dirprwy yn lle yr euog.

O. Ofer yw dadleu, oblegid gan yr addefir fod yr athrawiaeth uwchlaw rheswm ac yn anamgyffredadwy, ni all gael ei barnu gan reswm; ond y mae hi yn ymddibynnu ar awdurdod Dwyfol ac am hynny gall gael ei derbyn fel gwirionedd anwadadwy yn perthyn i ffydd ac nid i reswm?

A. Nyni sylwn nad ydyw yn ymddangos yn anamgyffredadwy, neu uwchlaw rheswm, mewn un ystyr amgen nag y mae pob gosodiad afresymmol yn anamgyffredadwy, neu awchlaw rheswm. Bwriwch fod ysgrifen yr hon fyddai yn honni awdurdod dwyfol yn haeru fod dau a dau yn gwneuthur pump; neu fod rhan o un peth yn fwy nag ef yn gyfan: gallech alw y gosodiadau hyn yn anamgyffredadwy; ond ni erys y meddwl yma; ond gwrthyd hwynt ar unwaith fel pethau anwireddus, ac ammhossibl Os gallaf gan hynny ddangos fod yr athrawiaeth dau sylw yn un mor anwireddus ac ammhossibl; gorphwys arnoch naill ai dangos twyll fy ymresymiad neu gyfaddef ei nerth. Yr ydwyf ynte yn ei hystyried yn beth croes i reswm, i Dduw i ymfoddloni i ymddygiad croes i berffeithrwydd ei natur. Os ydyw ei gyfraith droseddedig yn gofyn iawn er mwyn cynnal ei hurddas; ni all yr urddasrwydd hynny gael ei roddi gan y dieuog, na'i dderbyn oddiwrtho ef; am fod cyfiawnder yn gofyn i'r dieuog gael ei amddiffyn ac i'r euog yn unig gael ei gospi. Pe bae i'r dieuog ddioddef yn lle yr euog, ni byddai yn ôl eich dadleuiad chwi eich hunan, ond boddloni y gyfraith â chysgod yn lle y sylwedd—â'r llun yn lle y peth ei hunan—â gwawd gyfiawnder—â ffug cosp. Er y gallai Crist o'i wirfodd gynnyg marw, nid yw hynny yn gwneuthur un gwahaniaeth, oblegid lle nid oes gamwedd, ni all fod cosp; ac nis gellir meddwl iddo gymmeryd yr euogrwydd arno ei hun, am nas gall euogrwydd gael ei drosglwyddo.

O. Pa fodd ynte y dywedir ei wneuthur ef "yr hwn nid adnabu bechod yn bechod drosom ni?" Os nad allai fod trosglwyddiad o bechod yn hyn; yr ydoedd *cyf-*

rifiad o leiaf yndd o, oblegid fe'i ystyriwyd, ac fe'i galwyd ef yn euog.

A. Nawr, Syr, yr ydwyf yn galw arnoch chwi i sylwi fod yn eich darluniad osodiad croes i reswm—nid uwchlaw iddo; oblegid fel creadur rhesymol *ni allwch hi nag amgyffred ei fod yn anwireddus, ac annichonadwy.* Y mae eich athrawiaeth ynte, yn ystyried Iesu Grist yn euog o bechodau dynolryw trwy gyfrifiad, ond nid mewn gwirionedd—hynny yw, ei fod yn euog o'r pechodau hynny o'r rhai yr ydoedd ar yr un pryd yn ddieuog. Nawr, dal y fath athrawiaeth ydyw gwrthddywedyd egwyddor flaenaf—gwrthddywedyd y diwrthebair (axiom) "*ei bod yn ammhossibl i beth fod, a pheidio bod ar yr un pryd,* ydyw. Ond beth, attolwg, ydyw cyfrifiad? Mae y gair ei hun yn dynodi ansicrwydd, os nad anwiredd. Y mae yn arwyddo, yn ei arferiad yn gystal a'i dadogiad (etymology) arferiad o'r dychymmyg, neu o feddwl gwag na fedr wahaniaethu rhwng un peth a'r llall; yn meddwl, neu yn bwrw, fod rhyw briodoleddau yn perthyn i berson, y rhai a allent fod, neu beidio bod yn ei feddiant. Ond yn achos Iesu Grist, y mae cyfrifiad yn cymmeryd arno ei hun olwg wahanol iawn, oblegid y mae trais yn cael ei wneuthur yma, a hynny yn wirfoddol, i gydwybodaeth o'r gwirionedd. Yng nghydwybodaeth o'i ddiniweidrwydd y mae euogrwydd yn cael ei briodoli iddo. Gall un dyn briodoli euogrwydd i'r llall, trwy anwybodaeth, neu ddrwg ewyllys, ac efe yn ddieuog; ond yr ydych chwi yn gosod Duw allan yn cyfrif euogrwydd i'w Fab, a'r Mab o'i wirfodd yn ei gyfrif iddo ei hun; a hyn oll mewn cydwybodaeth o'i ddiniweidrwydd, fel pe bae Duw yn alluog i chwareu dichellion gyda'i Fab, er twyllo y byd ag anwiredd yn lle gwirionedd.

O. Syr, yr ydych yn fy arswydo i.

A. Pa le y mae rhyfeddod, gan eich bod yn beiddio priodoli i awdwr pob perffeithrwydd ymddygiad cyffelyb i ddichellion yr Ysbryd uffernol.

O. Syr, yr ydwyf yn *protesto* yn erbyn eich haeriadau ansancteidd. Mae yr athrawiaeth ydwyf fi yn ei dal wedi bod yn athrawiaeth yr Eglwys heb ond ychydig o eithriadau o'r dechreu hyd heddyw.

A. Ond pan yr ydoedd yn cael ei gwrthddywedyd, pa fodd yr oedd yn cael ei haddiffyn? Dim ond trwy gyfeiriad at awdurdodau nid at egwyddorion; at haeriadau, nid at brofion. Goddefwch i mi nodi i chwi awdwr diweddar, yr hwn sydd yn dywedyd ei bod yn angenrheidiol ei gosod allan yn y fath fodd, ag i beidio ymddangos nac yn afresymmol nac yn anghyfiawn. Wel, pa fodd y mae EFE yn ei gosod hi allan? Mi ddarllena i chwi ei eiriau ef. Ar ol haeru fod yr athrawiaeth wedi cael ei phrofi yn drwyadl, bod attebiad wedi cael ei roddi i bob gwrthddadl, gan rai o feistri pennaf ymresymmiad, o Grotius i lawr hyd Archesgob Dublin; a chan broffesu ei fod wedi cymmeryd cynnorthwy gan yr holl lu mawr hyn, y mae yn dywedyd, "Yn nirprwyad Iesu Grist yn ol y farn Gatholic *y mae trosgluddiad* o euogrwydd y pechaduriaid arno ef; wrth yr hyn ni feddylid iddo ef yr hwn oedd ddieuog fyned yn bechadur, ond mai pechod oedd achos ei ddioddefiadau ef. Er canfod y rheswm dros fabwsiadu y dull hwn o lefaru, rhaid i chwi ddwyn yn eich cof iawn amgyffrediad o'r tri gair, pechod, euogrwydd a chosp. Troseddiad o gyfraith yw pechod, euogrwydd, yw yr haeddiant o gosp yr hwn sydd yn canlyn y troseddiad hwn, a chosp ydyw y ddioddefaint yr hwn sydd yn canlyn yr haeddiant hwn. Pan y rhannoch ddioddefaint oddiwrth euogrwydd, y mae yn darfod bod yn gosp; ac y mae yn myned yn drallod, neu gystudd yn unig; ac er y gellir dychymmygu yr Hollalluog yn feddiannol ar hawl o'i allu penarglwyddiaethol i roddi un mesur a fynno o ddioddefaint ar un bod, etto did ydyw dioddefaint, hyd y nod pan y bydd yn cael ei weinyddu gan y Nefoedd, yn atteb diben cosp, oni bydd yn gyssylltedig ag euogrwydd. Fel y byddai gan hynny i ddioddefaint Mab Duw fod y fath ag a weddai i Ddeddfwr y greadigaeth beri, *yr ydoedd yn*

angenrheidiol i'r dioddefydd gael ei ystyried, a'i gyhoeddi fel yn cymmeryd arno y rhwymau hynny i gospedigaetb i'r rhai yr ydoedd yr hil ddynol wedi myned yn ddarostyngedig trwy eu pechodau. *Yna yn wir aeth ei ddioddefaint yn gosp,* nid yn wir wedi cael eu haeddu gan ei bechodau ef ei hun; ond yn ddyledus iddo fel yn dwyn pechodau eraill." Ar ol y ddadl a fu eisioes, nid yw yn angenrheidiol trwy un ·olrheiniad i nodi allan yr anghysondebau, y twyll, a gallwn ychwanegu yr ang'hysondeb cynnwysedig yn y dernyn o ysgrif hynod hwn. Gall pa fodd bynnag, er ei eiriad amhëus, a hunan wrthddywediadol gael ei ystyried, nid yn unig fel y darluniad diweddaf, ond hefyd fel yr un gorau a ellir roddi o'r athrawiaeth. Rhoddwyd ef hefyd gan ddyn o dalentau a dysge nodedig; un ag oedd yn ddiweddar yn benn ar Athrofa yn Scotland, ac am hir mawr yn dywysog cymanfaoedd Eglwys Scotland; ac y mae yn dwyn prawf, na all na chyneddfau dirfawr, na dysge lwyddo yn erbyn galluoedd nerthol y gwirionedd.

O. Syr yr ydych yn ymddangos yn llefaru gyda chymmaint o hunan-foddlonrwydd, a phe bae pawb eraill yn byw mewn camsyniaid, ac mai chwi yn unig sydd yn meddu gallu i gael hynny allan. Paham yr honnwch hawl i'r fath waith aruthrawl?

A. Yr ydwyf yn mynegi i chwi yng ngwyneb nefoedd a daear mai fy *unig* gais ydyw y gwirionedd, ac os ydyw fy ymresymiad a'm cascliadau yn unol ag ef, yr ydwyf dan rwymedigaethau o'r mwyaf i chwi, ac i chwi yn unig; oblegid y maent ôll yn sylfaenedig ar yr egwyddorion hynny a ddygwyd ym mlaen gennych chwi gynt, a rhai a ddywedech eu bod yn annadleuadwy.

O. Mi a ddywedais eisioes mai materion *ffydd,* ac nid *rhesum* ydyw athrawiaeth yr ysgrythyr yn bennaf, a pan yr ymddiriedoch i'ch rheswm eich bod yn ymddiriaid newn arweinydd cyfeiliornus. Ond gall rheswm, ïe gall nef a daear fyned heibio; ond nid â un iod nac un mymryn o'r hyn a llefarodd Duw heibio, nes eu cyflawnir ôll. Cofiwch hefyd fod yr hyn sydd amnhosibl gyda dynion yn bossibl gyda Duw; ac os ydyw yr efengyl yn guddiedig, yn y rhai colledig y mae yn guddiedig.

A. Yr ydych yn rhoddi ar ddeall ynte fod yn rhaid i mi dderbyn eich *golwg chwi* ar yr Efengyl, ac os amgen, fy mod yn peryglu fy niogelwch personol fy hun. Gall hyn fy ngwneuthur yn rhagrithiwr, ond ni all hyfforddi fy neall. Yr ydwyf yn dymuno arnoch am hynny fel y peth pennaf a allwch ei roddi i mi, i nodi allan dwyll fy ymresymiadau, yr hwn ar fy *honor* nid ydwyf yn gwybod am dano. Os na allwch wneuthur hyn, nid ydyw yn un cyhuddiad yn erbyn eich cyfrwystra, eich bod yn methu gwneuthur amhosibilrwydd.

O. Syr gallaf ganu yn iach i chwi yng ngeiriau prysur tad y ffyddloniaid. "Oni chredwch Moses a'r prophwydi," at yr hyn y gallaf chwanegu awdurdodau o uwch fyth, sef Mab Duw a'i apostolion ysbrydoledig, "ni chredwch chwaith pe codai un oddiwrth y meirw." *Exeunt.*

P.

CADERNYD Y CYFIAWN.—ENGLYN.

Un o fo'n iawn ei fywyd a gedwir
Yn gadarn ei wynfyd;
Ni chil, ni fyn ochelyd
Na dydd barn, na diwedd byd.

ALLAN O 'SALMAU' IOLO.

LLYTHYR O AMERICA,

Oddiwrth ein Gohebydd parchus, Mr. Joseph Williams, gynt o Lynlleifiad.

New York, Mawrth 5ed. 1850.

Anwyl Syr,—Er na chefais erioed mo'r hyfrydwch o weled eich wyneb yn y cnawd, ac er pelled ydwyf yn bresenol oddiwrthych, yn y byd newydd gorllewinol —nid ydwyf wedi eich anghofio chwi, a'r rhai sydd o gyffelyb feddwl gyda chwi. Ymae genyf lawer o bethau i ysgrifenu atoch, ond cyfyngaf yn bresenol i roddi ychydig hanes o'r Taleithiau eang hyn yn Ngogledd America, a'r fordaith iddynt. Caledi yr amserau, o herwydd prinder gorchwyl a barodd i mi benderfynu ymfudo o Frydain. Yr ydoedd yn gryn orchwyl gadael gwlad fy ngenedigaeth, perthynasau a chyfeillion. Rheswm dros'ymfudo, teimlad yn erbyn. Hwyliasom o Lynlleifiad, yr 8ed o fai diweddaf ar fwrdd y llong "*Jamestown*," un o'r *liners* Americanaidd y rhai y mae eu clod mor hysbys. Cyfrifem oll agos i bedwar cant, oddeutu tri chant o Gymru, a'r gweddill Saeson, Ysgotiaid, a Gwyddelod. Cawsom awel weddol tra yn myned heibio i fynyddoedd Cymru ar ein haswy, a'r Iwerddon ar ein dê: wedi hwylio amryw ddyddiau cyrhaeddasom gyrau'r weilgi drochionog, heb ddim ond y dyfroedd eang i syllu arnynt. Cymerwyd gryn nifer o'r ymfudwyr gan gletyd y môr, heb ond ychydig niwed—yn gyffredin y mae yn fuddiol yn ei effeithiau ar y cyfansoddiad. Ni chymerodd dim o bwys le yn ystod y rhan gyntaf o'r fordaith, ond oddeutu yr 20ed. cawsom dywydd lled ystormus amryw ddyddiau: ofnai llawer yn ddirfawr, a gweddient yn daer am ymwared: ereill a ddywedent fod rhyw Jonah yn ein plith yn ddiammeu; barnwyf fod gormod o duedd Jonah ynom oll, ac y gallasem gyda mwy o briodoldeb edrych gartref i'n calonau ein hunain. O'm rhan fy hun dymunwn gydnabod llaw y Creawdwr yn mhob peth, er hynny credwyf ei fod Ef wedi rhoddi deddf i'r môr, ac mai ein dyledswydd yw chwilio i'r ddeddf hon er cydffurfio a hi: heb hyn ni thycia gweddi ddim. Y llong ganddryll a sudda o flaen y dymestl, nid oes dim diogelwch yn un man, heb ofal ac ymdrech parâus. Yn ystod yr ystorm yr ydoedd ymddangosiad y dyfroedd yn fawreddog dros ben. Rhuai y gwynt o'n deutu, gyrai y dyfroedd a'i holl egni yn erbyn ein llestr, ymgodai'r môr fel mynyddau, nes ysgwyd a chwyfio ein llong odidog fel pluen ar wyneb y dyfroedd. Ysgrifenai amryw o'r ymfudwyr yn eu llythyrau gartref, ein bod wedi prin ddiange rhag llong-ddrylliad, ac mewn dirfawr enbydrwydd—felly teimlent hwy, tra yr ystyriwn i a llawer ereill y cyfryw hanes yn fwyhâd o'n sefyllfa wirioneddol. Yr ydoedd y Parch Evan Griffiths, gweinidog Annibynol, yn ein plith, a dau ereill o bregethwyr Cymreig. Pan ganiatai y tywydd hwy a bregethent ar fwrdd y llestr. Caem ambell ddadl weithiau rhwng Calfiniaid a'u gwrthwynebwyr Arminaidd. Yr ydoedd canfod llongau yn hwylio i wahanol borthladdoedd, yn sirioli ein meddyliau. Cawsom ambell ddiwrnod teg a hafaidd, y môr yn bollol ddigyffro, a'r llestr yn hwylio yn araf: tua diwedd y fordaith yr oeddent oll yn awyddus edrych am dir. Boreu Sul y 10ed o Fehefin derbyniasom y *Pilot*, ac yn y prydnawn, wele, er ein mawr lawenydd, dir yn y golwg—*Long Island* ar ein dê, wedi hyny talaith *New Jersey* ar ein haswy. Boreu Llun yr oeddem wrth enau'r afon *Hudson*, yn ymbarattoi ar gyfer y *Quarantine;* gan ein bod oll yn iach, cymerwyd ein llestr yn union gyrchol gan agerddlong i'r ddinas, lle y glaniasom oddeutu canolddydd y 11eg o Fehefin, heb un farwolaeth yn ystod y fordaith.

Y mae *New York* yn ddinas eang, ac yn cynyddu ynhgyflym, y mae yn sefyll ar ynys a elwid gan yr Indiaid *Manhattan*. Y mae amryw fân ynysoedd ereill yn gy-

âgos iddi, cynwysa nifer mawr o farsiandwyr, y rhai a ddilynant farsiandiaeth helaeth a'r taleithiau mewnol, a pharthau ereill o'r byd. Er nad oes yn y wlad hon bendefigaeth (*Aristocracy*) sefydledig a breinniol, y mae y llinell rhwng y dosparth goludog, a'r dosparth gweithgar, yn y prifdreflyn cynyddu yn feunyddiol. Gellir canfod yma, yr un modd ag yn nhrefydd Ewrop, orlawnder a mawrwychedd ar y naill law, tlodi ac eisiau ar y llaw arall. Nid yw y tlodi sydd yma ddim mewn cydmariaeth i'r hyn ydyw yn Ewrop; ond y mae yr un elfenau ar waith yma, ac heb ryw ddiwygiad trwyadl, bydd iddynt mewn amser gynyrchu yr un effeithiau. Mawr yw enw Mammon yma, y mae iddo lawer o addolwyr gwresog a ffyddlon. Yn ystod yr Haf, y mae oddeutu chwe mil yn glanio yn wythnosol yn *New York*, ymfudwyr o wahanol barthau o Ewrop; y mae hyn yn peri fod gorchwyl yn anhawdd i'w ennill. Y mae yma ddiarpariadau helaeth wedi eu gwneuthur, er addysgu ieuengctyd yr oes, yn y dalaeth hon y mae yr ysgolion yn rhydd a rhad i blant o bob enw a phob gradd. Newyddiaduron ydynt isel-bris, a gellir eu gweled yn nhob tenlu, yn gwasgaru gwybodaeth drwy'r wlad. Teimlir effeithiau y gwres yn yr haf ar brydiau yn dra dwys, ond nid yw y poethder o hir barhad. Cyrhaeddai y gwres-testrydd yn fynych oddeutu 96 o raddau yn y cysgod! Y mae y gauaf diweddaf wedi bod yn dra thymerus, barna rhai fod yr hinsawdd yn cyfnewid yn raddol, oddiar ddiwylliad cyffredin y tir drwy'r wlad. Y mae yn y wlad hon faes agored i'r sobr a'r diwyd o bob galwad. Y mae'r ymdrechgar a'r diwyd yn sicr o lwyddo mewn amser: ac ofer i neb arall ddisgwyl llwyddo.

Y mae yn meddiant yr Unol Daleithiau oddeutu pymtheng miliwn o erwau o dir heb eu gwerthu etto. Hysbyswyd (*advertised*) chwe miliwn o erwau i'r dyben o'u gwerthu y flwyddyn ddiweddaf, ac y mae dros ddeuddeng miliwn wedi eu harolygu, a'u rhestru, i'w cynyg ar werth yn eu hamser priodol. Y mae yma symudiad cyffredin ar droed tu ag at gael diwygiad o barth rhaniad y tiroedd perthynol i'r Llywodraeth. Yr amcan cyntaf ydyw, na byddo i neb ond y rhai a ymsefydlant ar y tir, o hyn allan ei brynu, ac na werther uwchlaw nifer penuodol o erwau. Y mae yn yr Unol Daleithiau filoedd o erwau o dir yn meddiant personau neillduol, wedi eu prynu ac yn cael eu cadw i'r dyben o facla [enill] arnynt. Yn nesaf ceisir gan y llywodraeth ganiatau cyfran benuodol o dir, i bob teulu a sefydlo arno, a hyny yn rhad. Amryw fesurau eraill o anghenrheidrwydd o gysylltir a'r rhai uchod, y mae y symudiad yn enill tir yn feunyddiol, ac yn berchen cefnogwyr enwog yn y senedd yn Washington.

Yn bresenol y mae cryn gynwrf yn nau dŷ 'r llywodraeth gyffredinol, a thrwy'r taleithiau, o berthynas i gaethwasanaeth. Y mae cynydd cyflym y taleithiau rhyddion, yn peri fod y mwyafrif yn wrthwynebol i estyniad caethwasanaeth i'r taleithiau newyddion, California ac ereill, y rhai ydynt yn goryn derbyniad i'r Undeb. Y mae trigolion California eisioes wedi llunio eu cyfansoddiad—gan wahardd caethwasanaeth. Y mae cynnrychiolwyr y taleithiau deheuol, neu gaethwasaidd, yn honi hawl fel rhan o'r frawdoliaeth, i fyned ymaelyd a'n *luggage* (caethweision) i'r tiriogaethau newyddion; yn nffyg hyn bygythiant ymadael o'r Undeb. Os cymer hyn le ofnir y bydd y cadyniaeban yn dduffrtiol. Y mae pleidwyr caethwasanaeth yn honi fod yr Ethiop wedi ei gyfaddasu i gaethwasanaeth, a'i fod yn fwy dedwydd yn y cyflwr hwnw. Haeraant yn mhellach fod cyfreithlonrwydd caethwasanaeth yn cael ei gydnabod yn yr ysgrythyran yn gyffredinol. Y mae arwyddion yr amserau, a chynydd yr oes, yr benderfynol yn erbyn caethwasanaeth, a chaled yw iddynt "wingo yn erbyn y symbylau." Y mae elwynion y llywodraeth gyffredinol o'r bron wedi eu clos, ac felly y parant nes peri derfynu y pwnge yma. *Fiat justitia ruat coelum.* Y mae bodoliaeth caethwasanaeth yn warthnod neillduol ar America. Ymffrostiant yn fawr yn eu rhyddid, bostiant ynghylch eu

hiawnderau—y caethfeistr a hona "ryddid i gaethiwo, a'i iawnder i gyflawni trosedd."

Cyfeiriwyd eisioes at y cyflousderau er addysg yn y talcithiau hyn: llaweu gynyf ychwanegu nad ydyw addysg foesol a chrefyddol y wladwriaeth yn cael ei esgeuluso gan y gwahanol enwadau crefyd lol, ac ymddengys i mi fod yr egwyddor wirfoddol, o gynal dysgawdwyr crefyddol, yn gweithio ei ffordd yn llwyddianus.

Y pleidiau crefyddol mwyaf lliosog ydynt,—Protestaniaid Esgobyddawl, Presbyteriaid, Methodistiaid Esgobyddawl, Bedyddwyr, &c. Nifer yr eglwysi Undodaidd sydd oddeutu 254, o ba rai y mae talaeth *Massachusetts*, yn Lloegr Newydd yn cynwys 164 o eglwysi. Y mae oddeutu 220 o eglwysi yn New York yn unig.

Rhaid i ymfudwyr fod yn amyneddgar, ac ymfoddloni i fyned drwy anhawsderau dros amser. Y mae yn y wlad hon liaws o freintiau a manteision, na cheir yn un man arall, a gobeithiwyf y bydd iddi gynyddu yn barhâus mewn doethineb a chyfiawnder, nes dangos a phrofi i'r byd, nad ydyw rhwysgwyr a gormesdeyrn yn aughenrheidiol i lywodraethu dyn dryw: ac nad oes gan frenhinoedd a llywodraethwyr yn gyffredinol unrhyw hawl i'w swyddau, ond a roddir iddynt gan y bobl, ac mai gweision y bobl ydynt.

Yr eiddoch yn barchus,

Rev. J. E. Jones, J. WILLIAMS.

Editor of the "Ymofynydd," Bridgend.

BYWGRAFFIAD YR UNDODIAID BOREU.

Syr Isaac Newton.—Parhâd o tudal 69.

YCHYDIG cyn i'r Principia gael ei anfon i'r argraph-wasg, gwnaeth Iago II. ymosodiad cofn ar ragorfreintiau prif Athrofa Caergrawnt, trwy anfon *Mandamus* i ganiattau y gradd o M.A. i fonach anwybodus o'r enw Father Francis. Ymhlith eraill, daeth Mr. Newton i'r maes i ymddiffyn breintiau'r corph gyda'r fath zêl a phenderfyniad nes y gorfu i Iago roddi heibio ei amcan. Ar ol hyn, dewiswyd Mr. Newton, fel yr oedd yn naturiol, yn gynnrychiolwr y Brif Athrofa yn y flwyddyn 1688. Yn y flwyddyn 1696 dewiswyd ef yn *Warden of the Mint*, ac ymhen ychydig flynyddau cafodd ei wneuthur yn *master of the Mint*, sefyllfa o werth £1200. yn y flwyddyn, yr hon a gadwodd dros ei fywyd. Ar ei dderchafiad, rhoddodd i fynu ei sefyllfa yn Caergrawnt, i'r hon y cafodd Mr. Whiston ei nodi ar ei ol ef. Yn 1699 dewiswyd Mr. N. yn aelod o'r *Royal Academy of Sciences* yn Paris, ac yn llywydd y *Royal Society* yn Llundain yn y flwyddyn 1703, sefyllfa a lanwodd hyd ei fedd. Yn y flwyddyn ganlynol cyhoeddodd ei *Optics*, gwaith a gymerodd ran fawr o'i lafur yn achlysurol am 30 mlynedd. Efe oedd y cyntaf a feddyliodd am rannu peth mor denau a diafael a goleuni; llwyddodd, er hynny, i rannu y paladr, er lleied oedd, i'w rannau hanfodol, a chafodd allan allu gwrth-doriadol pob rhan, ynghyd a'r lliwiau gwahanol a berthynent iddynt. Cyfieithodd Dr. S. Clarke (cyfaill mynwesol Mr. Newton) ei *Optics* ef i'r Lladin mewn modd campus, a chafodd £500 yn wobr gan Mr. N. am gyflawni ei waith mor dda. Gydag argraphiad cyntaf ei *Optics* daeth allan ei *Fluxions*. Mynnai Leibnitz i'r byd i gredu fod Mr. Newton wedi benthycca oddiarno ef yn y gangen ddofn dan sylw, ond ni lwyddodd i gael nemawr i'w gredu yn hyn.

Yn 1705 rhoddodd y frenhines Anne urddas Marchog i Mr. Newton; ac ymhen dwy flynedd ar ol hyn cyhoeddodd Mr. Whiston, trwy ganiattad Syr Isaac, ei *Arithmetica Universalis* ef, a chyfieithwyd ef i'r Sais'neg gan Mr. Raphson. Cyhoeddwyd hefyd ei *Fluxions* ef gan William Jones, Ysw. F.R.S. oherwydd y ddadl ynghylch y ddyfais; cyhoeddwyd hefyd yn 1712, trwy gydsyniad Syr Isaac, gasgliad o lythyron ganddo ef ac eraill yn y ddadl. Yn y flwyddyn 1715 gwnaeth Leibnitz gynnyg i ddyrysu Syr Isaac trwy roddi i'r Saison ofyniad dyrus, gan roddi her iddynt ei atteb os gallent, gan olygu Syr Isaac yn neilduol; ond nid oedd ei *broblem of Trajectories*, er anhawdded y meddyliai ef ei bod, ond chwareu plant bach i feddwl mawr Syr Isaac. Derbyniodd y *problem* am 4 o'r gloch y prydnawn, ar ei waith yn dychwelyd

adref o'r *Mint*, a chyn myned i'r gwely y noson bonno yr oedd wedi ei hatteb, er ar y pryd yn lluddiedig gan ei waith y dydd. 'Doedd fawr defnydd i Leibnitz na neb arall i ymdrechu ei faeddu ef.

Ar esgyniad Sior I. i orsedd Prydain, yr oedd sylw mawr yn cael ei wneuthur o Syr Isaac yn y llŷs, ac yn enwedig gan dywysoges Cymru, wedi hynny y frenhines Caroline, yr hon o honi hithau oedd yn hoff iawn o ymchwiliadau philosophyddawl, ac o gymdeithas dynion o dalentau mawrion a gwybodaeth helaeth. Dywedai'r frenhines ei bod yn ystyried ei hun yn ddedwydd iddi gael ei geni mewn cyfnod mor argoelfawr, a chael y fraint o ymddiddan a Syr Isaac Newton. Ar ei chais hi tynnodd Syr Isaac fyr-draeth o'i Amseryddiaeth, ac anfonodd *gopi* o hono i Abbè Gonte, yr hwn a'i cyhoeddodd heb ei gennad, er rhoddi addewid i'w gadw'n ddirgel. Ond ni adawn ein Philosophydd mawr ar yr uchelfa a esgynodd iddi, heb allu o honom amgen na dangos y man y dringodd ef iddo, heb le i obeithio ei gyrraedd ein hunain fyth; ni a'i gadawn, meddaf, ac a drown atto fel dyn, ac fel Cristion.

Fel dyn, ni a'i cawn ef yn hynod o hunanymwadol. Dim balchder! Yn wir, nid oedd lle i ddodrefnyn mor wael mewn ystafell mor ardderchog. Pan y canmolid galluoedd mawrion ei feddwl treiddgar, dywedai, os oedd ef wedi gwneuthur rhyw beth yn deilwng o sylw, a lles i'r byd, fod hynny yn ddyledus i'w ddiwydrwydd a'i amynedd yn hyttrach na mawrdedd ei gyrhaeddiadau. "Yr wyf yn cadw y pwngc yn wastad o'm blaen," ebefe, "ac yn aros nes y torro'r wawr yn araf, a chynyddu bob yn ychydig i oleuni llawn a disglaer." Pan yngafael a phyngciau dyrus iawn, yr oedd yngholl i'r hen fyd yma mor drwyadl yn fynych, fel yr anghofiai orchwylion cyffredin bywyd yn hollol. Weithiau eisteddai ar erchwyn ei wely, a'i ddillad ar hanner eu diosg am oriau, wedi ei lyngcu i fynu mewn myfyrdod yn lân: bryd arall yn ei fyfyrdodau *Mathematicaidd*, anghofiai angenrheidiau bywyd, a threuliai'r dydd oll heb gymeryd lluniaeth, na meddwl fod ei angen arno. Yr oedd temer Syr Isaac, meddir, mor fwynaidd, mor garuaidd, mor gyfartal, fel na allai un ddamwain braidd ei gyffroi. Er prawf o hyn, y mae'r hanesyn canlynol, pur adnabyddus i bob plentyn yn yr ysgol braidd, yn ddigon. Yr oedd gi nddo gi bach o'r enw Diamond: rhyw dro gadawodd y ci bach yn ei lyfr-gell, yr hwn a daflodd ganwyll gyneuedig i blith ei bapurau ef, ac a losgodd wath blynyddau lawer oedd ymron cael ei orphen ganddo. Aflwydd dost! Colled ddi-alw-yn-ol oedd hon. Er hynny, ni wnaeth Syr Isaac ragor na gwaeddi allan; "O Diamond! Diamond! Ychydig y wyddost y drwg a wnaethost."

Dylid sylwi ei fod ef o demer hynod o siriol; ni chymmerai arno un agwedd allanol gwahanol i ddynion eraill, (yn wir, pa angen, lle yr oedd ganddo ddigon i'w wahaniaethu ef oddiwrth bawb heb ystranciau plantos mewn gwybodaeth); na, na, ni feddyliodd ef erioed y dylai ei alluoedd mawrion, a'i gyrhaeddiadau helaethion ei attal ef i gyflawni dyleddswyddau bywyd, a bod yn gyfeillgar. Yr oedd ef yn philosophydd mawr, ond yn gyfaill serchog a charuaidd gyda hynny.

Fel Cristion, yr oedd yn credu yn ddiysg og yng ngwirioneddau pwysig datguddiad, a chyda golwg ar ei olygiadau neilduol ar byngciau crefyddol, yr oedd tuhwnt i amheuaeth yn UNDODWR, er iddo, fel Firmin ag eraill, aros yng nghymundeb yr eglwys sefydledig dros ei fywyd. Ysgrifenodd ddau draethawd ar lygriadau dau destun o'r ysgrythyr, sef, 1 Ioan v. 7, a 1 Tim. iii. 16. mewn llythyr at M. Le Clerc, rhwng 1695 a 1709, yn ol barn Porson.* Am y blaenaf, sef y tri thyst nefol, y mae wedi dangos, trwy brofion nerthol, nad oedd ar y cyntaf, ac na ddylai fod etto yn rhan o'r ysgrythyr: ac am yr ail, sef 1 Tim. iii. 16. y mae wedi dangos na ddylai'r gair Duw gael aros yn y testun; ac yn ei le y dylid darllain y geiriau "y peth yr hwn." Wedi iddo wneuthur hyn mewn modd galluog, dylasai, os oedd yn drindodwr, ddywedyd gyda thrindodiaid dysgedig eraill, "Er colli yr adnodau hyn fel profion o'r drindod, fod digon ar eu hol i'w cael, i brofi'r cyfryw dyb." Eithr hyn ni wnaeth, ac y mae ei ddistawrwydd yn brawf cadarn nad oedd yn credu mewn trindod yn undod. Ond y mae gennym ragor na hyn etto o brofion, er nad y cwbl a ddymunem ac a allem gael, pe gwelai ei berthynasau yn dda, i sylfaenu ein cred arnynt, mai undodwr oedd Syr Isaac. Gwyddai perthynasau Syr Isaac ei fod yn cael ei osod allan fel undodwr o ran ei farn, a phe buasai ganddynt ryw bapur o'i waith yn eu mheddiant, yn cynnwys rhyw beth dros y dyb gyffredin am drindod, anhawdd gennyf gredu na wnaent ei gyhoeddi gyda brys, fel y prawf goreu ei fod yn union-gred yn ei farn ar y pwngc dan sylw; gan na wnaethant hynny, y mae cu gomeddiad yn ychwanegiad pwysig at rym y prawf mai undodwr oedd ef. Yn nesaf, cawn dystiolaeth anghyfeiriol Mr. Ramsay; wrth geisio profi yn ofer fod Dr. Clarke wedi edifarhau iddo gyhoeddi ei waith ar y drindod, dywed, "Yr oedd Syr Isaac Newton, er yn fathematician dwfn, ond dim metaphysician oll, yn grediniwr gwirioneddol mewn Crist'nogrwydd; ond wedi ei gludo ymaith gan awydd i ad-ddiwygio hen heresiau y dwyrain, efe a adfywioccaodd *Ariaeth* trwy bin ei ddyscybl enwog a'i ddehonglydd Dr Clarke."† Ond y dystiolaeth fwyaf pendant

* Gwel Priestley's Works, by Rutt., Vol. II, 464 note; IV. 315 note, a XIV. 428. † Gwel Lindsey's Hist. View, pref. XIV.

a phenderfynol yw yr hyn a ddywed Mr. Richard Baron, yn y Rhagymadrodd i'w "Gasgliad o Draethodau," tud. 18, lle y mae'r ysgrifenydd eofn, ar ol mynegi ei gymeradwyaeth hollol o'r dyb am ddyndod Crist; yr hon oedd yn cael ei chofleidio, yn ol ei dyb ef, gan lawer o ddynion rhagorol y mae 'n enwi, yn myned ymlaen i sylwi fod "Syr Isaac Newton wedi prophwydo adferiad y gwirionedd cyntefig hwn yn y geiriau cofus hynny o'i eiddo wrth Mr. Haynes: "*Fe ddaw yr amser pan y caiff yr athrawiaeth o gnawdoliaeth (Crist) ei gwrthod fel gwrthuni cymaint a thraws-sylweddiad ei hun.*" Dan enw Mr. Haynes, y mae Mr. Baron yn sylwi ymhellach fel hyn, "Hopton Haynes, Ysw, awdwr llawer o ysgrifau tra adnabyddus i'r cywraint, a fu mewn gwasanaeth, am lawer o flynyddau dan Syr Isaac Newton, ac yr oedd ganddo sefyllfa yn yr Exchequer ar ddydd ei farwolaeth. Yr undodwr mwyaf zelog oedd a adwaenwn i erioed, ac mewn ymddiddan ag ef ar y pwnge hwnnw, dywedodd wrthyf, "*Nad oedd Syr Isaac Newton yn credu rhaghanfod ein Harglwydd,*" yr oedd yn Sosinian, fel ei gelwir, yn yr erthygl hwnnw; fod yn ddrwg iawn gan Syr Isaac fod Mr. (Dr.) Clarke yn cofleidio *Ariaeth;* yr hon dyb, fel yr ofnai ef, oedd wedi bod, a pharhai i fod, yn rhwystr mawr i gynnydd Cristnogrwydd, tra'n cael ei chefnogi gan ddynion dysgedig."* Y mae Mr. Baron yn gorphen ei nodiad trwy sylwi; "Na ddarfu i un dyn chwilio yr ysgrythyrau yn fwy na Syr Isaac Newton, na'u deall yn well: ac os gwnaiff dynion ddwyn *enwau* ymlaen fel awdurdod yn y matter hwn, y mae gennym yr enw mwyaf o'n hochr ni."† Da fuasai gennyf pe gallaswn gael y dyn mawr hwn ar y maes yn eofn a gwrol, yn pleidio ein syniadau anwyl, yngwyneb caledi ac erledigaeth fel yr anfarwol Gruter yn Wurtemberg, yr hwn, pan gofynwyd iddo ddanscrifio credo Luther neu ymadael a'r dref, a'r wlad, lle yr oedd yn byw, a ddywedodd, "Hyn a wnaf os gorfydd i mi. Ac os na chaniatteir i mi dreulio fy nyddiau mewn trefydd, treuliaf hwynt mewn caeau a gelltydd. Fe wna yr Hollalluog Ior ba otoi yno rhyw lysiau a gwreiddiau i'm cynnal i, dros yr yspaid fer sydd gennyf i fyw."‡ Ond er nas gallwn gael Syr Isaac ar y tir hwn, nid oes lle i feio, lle nad oes gennym hawl; eithr yn hyttrach dywedaf yng ngeiriau Mr. Lindsey (Hist. View 401, 402, 403,) "Mai undodwr Cristnogol oedd Syr Isaac nid all fod amheuaeth, er iddo gydymffurfio hyd ddiwedd ei fywyd ag addoliad *trindodaidd cyhoeddus.* Ac er y dymunem ni i'r peth fod yn wahanol, y mae'n rhaid i ni beidio cymmeryd arnom i geryddu neu farnu lle nad oes gennym hawl, ac nid ni yw y barnwyr, ond dylem gymmeryd gofal na fyddo i awdurdod, pa mor gymmeradwy bynnag, i'n cam-arwain ni. Mae'n debyg mai ei ochelgarwch naturiol, ei fulder, a'i ofni gael ei dynnu i ddadl, oedd yr achos na ddarfu i'r gwr enwog hwn erioed ddatgan yn gyhoeddus ei syniadau ar y pwnge pwysig hwn yn ei fywyd; ond yn hyttrach a awgryma mewn modd anghyfeiriol beth oeddent yn yr ysgrifeniadau hynny a gyhoeddwyd ar ol llaw. Yr wyf yn cael, er hynny, fod y rhai oeddent yn byw yn agosach at yr amseroedd hynny yn priodoli y distawrwydd hynod hwn i ofn erledigaeth. Oblegid y mae awdwr llyfryn bychan, o gryn gymeradwyaeth, er nad oes un enw wrtho,§ a esgrifenwyd tuag ugain mlynedd ar ol marwolaeth Syr Isaac, ar ol coffhau yn gyntaf ddioddefiadau Mr. Emlyn yn yr achos hwn, yn myned ymlaen gan ddywedyd; "Darfu i'r yspryd erlidgar hwn ddychrynu a distewi rhai gwyr hynod yn ein plith, Syr Peter King, Syr Joseph Jekyll, a'r gwr mwyaf yn ei oes, gogoniant ac addurn cenedl Prydain, yr enwog Syr Isaac Newton wy' i'n feddwl." Ar ol hyn, y mae'n cyfeirio at draethawd Syr Isaac, yr hwn oedd pryd hynny heb ei gyhoeddi, sef ei lythyr at M. Le Clerc a enwais uchod, fel profion o'r gocheliad gormodol hwn. Y mae'r traethawd hwn wedi bod yn hir bellach o flaen y cyhoedd. Bu yn fy meddiant i fy hun, ond rhyw fodd nis gallaf osod fy llaw arno yn awr: tebyg yw ei fod wedi myned i golli. Trueni na wnai rhyw un o'ch gohebwyr, y sydd ag ef yn ei feddiant, ei gyfieithu a'i anfon i chwi Mr. Ymofynydd, i anrhydeddu dalenau eich cyhoeddiad amhleidgar. Pe cawn i ei fenthyg, nid hir y byddech hebddo.

Y mae bellach o flaen eich darllenwyr gynnifer o brofion a ellais i eu casglu mai undodwr oedd tywysog y Philosophyddion; ac y maent yn ddigon i'm darbwyllo i gredu ei fod ef yn undodwr trwyadl o ran ei syniadau am berson Crist, ac undod diranedig *yr unig* BENNAETH, er na wnaeth broffes gyhoeddus o honynt.

Parhaodd Syr Isaac i fwynhau iechyd lled reolaidd hyd nes oedd yn bedwar ugain oed, pryd y darfu ddechreu ymollwng: tybid mai achos ei afiechyd oedd carreg yn y bledren, yr hyn weithiau a roddai boen mor ddirfawr iddo nes y rhedai diferion mawrion o chwŷs dros ei ruddiau i lawr. Dan yr ymosodiadau chwerwon hyn ni chlywyd ef yn achwyn dim, na dywedyd gair o anfoddlonrwydd; eithr mor gynted ag y cai funud o esmwythder, gwênai ac ymddiddanai gyda'i sirioldeb cynnefinol. Hyd yr amser hwn, darllenai ac esgrifenai am lawer o oriau bob dydd, ond yn awr cafodd ei analluogi i fyned a'i waith ymlaen fel arferol. Boreu y 18fed o Fawrth, 1726-7 darllenodd y newyddiadur ac ymddi-

* Gwel Lindsey's Sequel to Ap. 18, 19; Haynes' Scrip. Account, pref. XVIII. † Ibid XXII. Note g.
‡ Hist. View 444. § Title y llyfryn yw, "Causa Dei contra Novatores."

ddanodd dros gryn yspaid a Dr. Mead ei Physygwr, mewn cyflawn feddiant o'i gynheddfau* bryd hyn, ond cafodd ei ymddifadu o honynt modd bynnag y nos ganlynol, a chanodd yn iach i'r fuchedd hon ar yr 20fed o'r un mis, yn 85 mlwydd oed. Talwyd anrhydedd ysplenydd i'w weddillion, a dangoswyd pob parch a weddai i'r hwn a safai cuwch yngolwg holl Eurôp. Gosodwyd ei gorph i orwedd *in state* yn y Jerusalem Chamber, wrth dy yr Arglwyddi. Ar ddydd ei gladdedigaeth cynhalwyd y llen-elawr (*pall*) gan yr Arglwydd Canghellydd, Dugiaid Montrose a Roxburgh, a Ieirll Pemfro, Sussex, a Macclesfield.

Ni fu Syr Isaac yn briod erioed, a dywedai Fontenelle nad oedd ganddo ddim amser i feddwl am y fath beth, gan fod ei amser, ar y cyntaf, yn cael ei gymeryd i fynu gan fyfyrdod dwys, ac ar ol hynny gan ei sefyllfa bwysig, fel nad oedd gwagle yn ei fywyd, nag angen wrth gyfeillach deuluaidd. Bu farw yn gyfoethog, heb un ewyllys;†—*bu farw*, ond anfarwolodd ei enw, a *byw* fydd tra meddwl yn alluog i fyfyrio ar ei waith, a thafod i fynegi ei wertu. O. EVANS.

FFERYLLIAETH MEWN CYSSYLLTIAD A FFERMWRIAETH.

SYR,—Os meddyliwch y gall fod yr ysgrifau canlynol o ryw ddefnydd i ffermwyr, y rhai ydynt yn gwneuthur i fynu ran fawr o'ch darllenwyr, y mae i chwi roesaw i'w cyhoeddi hwynt yn yr *Ymofynydd*.

Nid annhebyg, ar ryw olwg, yw llysiau a chreaduriaid byw i weithdy y fferyllydd (*Chemist*), oblegid meddant allu i ddattod elfenau cyfansoddiadol y sylweddau hynny a ymborthant arnynt, a'u perchenogi, trwy ei cyfnewid i elfenau hollol wahanol i ddiwallu anghenion eu cyfansoddiadau eu hunain. Er engraifft, meddylier fod anifeiliaid o wahanol rywiogaethau, megys eidionau, defaid, ceffylau, moch, gwyddau, asynod, ysgyfarnogod, cwningod, geifr, &c. yn cyd-bori ar yr un maes ac yn ymborthi ar yr un llysiau; trwy offerynoldeb y cylla a rhannau eraill yr ymysgaroedd, cyfnewidir yr ymborth neu'r llysiau i i elfenau eraill cyfattebol i gyfansoddiad cig, gwaed, giau, ac esgyrn creaduriaid ag sydd yn gwahaniaethu cymmaint o ran gwneuthuriad a nattur eu cyrph ac ydyw gwyddau a moch neu asynod a geifr. Meddylier hefyd fod gwenith, haidd, ceirch, ffa, pys, cloron, erfin, panas, cenin, &c., yn cyd-dyfu yn yr un tir; y mae'r un elfenau meithrinol, neu wahanol rannau o honynt, yn cael eu cyfnewid gan y gwreiddiau a'r dail, i ddiwallu anghenion pob llysieuyn yn ol ei rywogaeth—llysiau yn amrywio cymaint yn eu cyfansoddiadau ac ydyw haidd a chenin neu geirch a phanas Pa fodd y cymer y cyfnewidiadau rhyfeddol hyn le, nis gwyr neb ond y CREAWDWR DOETH EI HUN; ond y mae elfenau cyfansoddiadol creaduriaid a llysiau, eu hymborth, yr offerynau sydd ganddynt at barotoi yr ymborth i fod yn faeth addas i gyhaliaeth eu cyrph, dull ei gyfnewidiad, &c. yn bethau holloll adnabyddus i natturiaethwyr; ac i roʼdi desgryfiad byr a chynhwysfawr o honynt i'r hwsmon yw diben yr ysgrifau canlynol Gan nad oes dim cyffelyb wedi bod o flaen yr hwsmon Cymreig, gobeithir y rhodda yr ysgrifau hyn ryw gynnorthwy iddo i drin y ddaiar ac i hau eu hadau gyda sicrwydd celfyddydawl fod tir a thrinaeth neillduol yn ofynol i dyfiant a chynnyrch y llafuriau neu'r llysiau hyny ag fyddo angen arno am danynt. Mae'r pwnc hwn yn un helaeth iawn, yn un pleserus i'r myfyriwr, ac adeiladol i'r hwsmon Pan ystyrir helaethrwydd y pwnc, nis gellir dysgwyl iddo gael ei drafod yn yr ysgrifau hyn mor fanwl ac y dylai, ond gosodir digon o flaen yr hwsmon i ddangos iddo fod y fath wybodaeth i'w chael, ac i fod yn fuddiol iddo ef ymofyn am dani; ie, fod y wybodaeth yn un anhepgorol angenrheidiol iddo, ac fod yr angenrheidrwydd yn cynnyddu bob blwyddyn yn ol fel y mae ei feichiau yn amlhau. Dangosir yn yr ysgrifau hyn mewn modd byr a chyffredinol wahanol gyfansoddau tiroedd; eu helfenau; pwy achles a pha faint o hono sydd yn ofynol iddynt gael er mwyn tyfiant a chynnyrch llafuriau a a llysiau neillduol; a rhoddir y rhesymau paham.

Pob peth a dyf o'r ddaiar, megys coed, llysiau &c. sydd gynnwysedig o ddwy ran a elwir yn Saesoneg *organic* ac *inorganic*. Wrth y blaenaf y meddylir y sylweddau hyny ag sydd yn gwneyd i fynu y rhan fwyaf o faintioli y pren neu y llysieuyn pan wedi sychu. Yr unig ffordd i wahanu yr *organic* oddiwrth yr *inorganic* yw trwy losgi y pren, &c. yn tân. Yr *organic* a ddiddymir, a'r *inorganic* fydd y gweddill sef y lludw. Meddylier fod y pren &c. yn cael ei ranu yn 100 o rannau; cynnwys yr *inorganic* o un i ddeg o honynt.

Mae y gyfran organic yn gynnwysedig o'r pedair elfen ganlynol, sef Carbon, Oxygen Hydrogen, a Nitrogen: ond gan fod y pethau a feddylir wrth yr enwau hyn yn anadnabyddus i'r rhan fwyaf o darllenwyr yr Ymofynydd, rhoddaf ddesgrifiad byr o bob un y honynt, er fy mod trwy hyny yn myned ychydig allan o'r pwnc.

* Yr oedd ei gof wedi gwaethygu yn fawr yn ei ddyddiau diweddaf---Gwel Pemberton's View, preface.
† Gwel Dr. Rees, Cyc., Penny Cyc., Art. Newton.

Carbon mewn cyflwr ammhur yw pren wedi ei olosc nes byddo yn ddu. Mae'r gair yn ddeilliaw oddiwrth y gair Lladia *Carbo* neu *marworyn.* Sylwedd ydyw ag sydd yn ddisawyr ac annhoddadwy. Cymaint yw'r serch ynddo at Oxygen a phob peth sûr fel yr unant mor rhwydd fel pe gosodid Carbon mewn gwinegr, collai ei surni mewn ychydig amser, oblegid elai yr oxygen ag sydd yn ei achosi o'r gwlybwr i'r Carbon. Oxygen a Charbon mewn cyflwr anweddawl yw y peth a elwir *carbonic acid*, yr hwn sydd mor ddinystriol i fywyd, ac wedi bod yn achos angeu i lawer a ruthrant yn anystyriol i bydewau a hen byllau glo. Ar waelod y pwll, neu lle bynnag y byddo, yr erys yr anwedd dinystriol hwn, am ei fod yn drymmach na'r awyr. Peth buddiol cyn disgyn i waelod hen bydew fyddai taflu i mewn iddo yn gyntaf galch brwd; oblegid os bydd Carbonic Acid yn y gwaelod, dinystria'r calch ef trwy gymeryd ymaith yr Oxygen. Mae cymaint o Oxygen mewn calch brwd fel y geilw y fferyllyddion ef *protoxyde of Calcium.* Er fod serch rhwng Carbon ac Oxygen; y mae mwy o serch rhwng Oxygen ac Oxygen, a hyn yw'r rheswm paham yr ymadawa'r Oxygen o'r Carbon i uno a'r calch. Ond i ddychwelyd, mae eraill wedi dyfod i angeu disyfyd trwy gyscu mewn ystafell glyd lle byddo tan marwor wedi ei gynneu er mwyn ei dwymo neu ei sychu. Carbonic Acid hefyd yw achos y sawr ammhur sydd i'w arogli mewn ystafelloedd cauedig lle byddo llawer yn anadlu heb nemawr o awyr. Mae hyn yn achos clefydau a marwolaeth hanner tylodion y byd, yn enwedig mewn trefydd. Er hyny, er fod Carbonic Acid yn sylwedd mor angeuol i greaduriaid byw, ac yn cael ei greu ganddynt a'u hanadlau, nis gall coed a llysiau ddim byw hebddo: am hyny diwellir eu hangen a'r Carbonic Acid sydd yn nghymysc a'r awyr. Ond gan nad oes arnynt eisiau yr Oxygen yn y dydd, mae gallu gan y dail yn ngoleuni'r haul i wahanu y Carbon oddiwrth yr Oxygen, i sugno y blaenaf i gyfansoddiad y pren neu'r llysieuyn, ac i wrthod yr olaf! Ond yn y nos y mae'r Oxygen yn cael ei sygno a'r Carbon yn cael ei wrthod. Dr. Priestley oedd y cyntaf a ddadguddiodd y gyfraith ryfeddol hon sydd yn perthyn i'r greadigaeth lysieuawl a byddai hyn ynddo ei hun yn ddigon i anfarwoli ei enw yn annibynol ar ddim datguddiadau eraill a wnaeth. Cymmaint a hyn ynghylch y sylwedd a elwir Carbon Barnaf fod hyn yn ddigon i atteb y pwrpas sydd gennyf yn y golwg yn bresenol.

D. L. Evans.

HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

Y SENEDD.

ADDYSGIAETH Y WERIN.

Dydd Mawrth, Cwefror 26. Cafodd Mr. W. J. Fox, ganiatâd i ddwyn i mewn ysgrif er cael Addysgiaeth Gyffredinol yn Nghymru a Lloegr.

Yn ei araeth dangosodd fod yr addysgiaeth sy'n bresenol, gyda golwg ar daenu gwybodaeth a *moesau da*, yn aneffeithiol ac anfoddhäol dros ben—fod drwg-weithredoedd yn cynnyddu yn y wlad, hyd yn oed yn y dosbarth hwnnw sydd wedi cael y fantais o'r ysgolion presenol,—fod yr Eglwyswyr, a'r Ymneillduwyr a'r *Committee of Privy Council*, yn methu cyd-dynu, ac mewn canlyniad, fod ymdrechiadau at addysgiaeth yr ieuengctyd, yn cael eu cloffi a'u rhwystro mewn llawer ardal—fod y system wirfoddol wedi ei phrofi ei bod yn annigonol, oddieithr mewn amgylchiadau tra ffafriol.

Y peth a gynnygiai ydoedd, fod i'r *Inspectors* dan y Llywodraeth i chwilio i mewn i gyflwr pob plwyf neu undeb o blwyfau, pa un ai oes yn neb o honynt *ddiffyg* o foddion addysgiaeth dda—a lle y ceir fod y fath ddiffyg, yna i alw ar y plwyfolion i sefydlu ysgol dda, ac i drethu eu hunain tuag at ei chynnal—fod trefniadau a llywodraeth y fath ysgol i fod yn nwylaw y sawl a ddewisir gan y plwyfolion, dan arolygiaeth y *Committee of Privy Council.* Ac os bydd i'r plwyfolion beidio a sefydlu ysgol lle y gwelir fod ei heisiau, yna fod y Llywodraeth i'w gorfodi: fel na byddo ddiffyg addysgiaeth dda yn rhâd i holl blant y deyrnas o 7 i 13 mlwydd oed, a hyny heb droseddu ar ryddid crefyddol. Dim ymyrraeth âg ysgolion da sydd eisioes ar droed, gan nad pwy blaid a'u cynnaliant; ond eu cynnorthwyo os bydd angen. Er i gynnygiad Mr. Fox gael ei dderbyn gan y Senedd a'r Weinyddiaeth gyda'r parch dyladwy, nid ydyw yn debygol y bydd i'r ysgrif ddyfod yn gyfraith y tir ar fyr iawn.

Y mae rhagfarnau cryf yn ei herbyn. Ni chaniateir i ni ar y pryd hwn i fanylu.—Ar y cyfan ymddengys fod y cynnygiad yn gyffelyb i'r hyn a bleidir gan y *Lancashire Association for Popular Education.*

Iau, y 28ain. gwnaeth Mr. Hume ei gynnygiad am gael eangiad y bleidlais *(extension of Suffrage)* a'r *ballot.*

Nid yw y rhesymau a ddygodd Mr. H. dros ei gynnygiad yn waeth am nad ydynt yn newydd. Pa fodd bynag wedi'r areithio o blaid ac yn erbyn y cynnygiad, cafwyd

Dros y cynnygiad . .	96
Yn ei erbyn . . .	242
Mwyrif yn ei erbyn . .	146

Ni chaniateir lle i ni fyned dros yr amryw

iol testunau, yr ydys wedi bod yn arcithio arnynt yn y Senedd yn ystod y mis diweddaf; ond rhaid i ni dywedyd gair yn fyr ar y "*Budget;*" a'r cynnyg i esmwythâu trethi'r wlad.

Y BUDGET.

Yn yr hysbysiad a wnaeth y Canghellwr (Mawrth y 15fed.) ynghylch trethi'r wlad am y flwyddyn ddyfodol, ni chynnygir dim braidd tuag at esmwythâu beichiau'r cyffredin, oddieithr tynnu ymaith y tâl oddiar wneuthur *bricks*, a rhyw ychydig ostyngiad o'r taloedd a wneir wrth werthu a mortgeisio tai a thiroedd &c. Am hyn clywir rhagor 'maes o law.

EGLWYS LOEGR AC AIL-ENEDIGAETH BABANOD ETTO.

Yn groes i'n disgwyliadau ni, rhaid addef, ac er siomedigaeth ofnadwy i'r Puseyaid, y mae Mr. Gorham a'i blaid wedi ennill y dydd ar Esgob Phillpots. Y mae'r peth ynddo ei hun braidd yn rhy ddistadl i ymresymu arno; oddieithr am ei fod yn dangos arwyddion yr amserau.

Y mae'r *Privy Council* wedi penderfynu fod yr Erthyglau mewn dadl yn *ddau-feddyliog*; i'w cymeryd yn llythrenol, gyda Esgob Phillpots, os mynir; neu ynte yn *dra ffigwraidd* gydâ Mr. Gorham a'i blaid. Pob peth er mwyn gochelyd rhwygiad. Y mae Archesgob Canterbury wedi ysgrifenu llythyr i amddiffyn yr olwg hyn. Ac y mae Esgob Phillpots wedi cyhoeddi *pamphlet* yn ei erbyn. Ymlaen â'r ddadl, dywedwn ni: maes o law deuir i weled anghysondebau yr awdurdodau Eglwysig yma, ac i ymwrthôd â hwynt; a daw dynion i farnu drostynt eu hunain.

FFRAINGC.

Trôdd yr etholiadau yn Paris y mis diweddaf yn gwbl o blaid y *Socialists* a'r Gwerinwyr Cochion; yr hyn sydd wedi peri cryn gyffro drwy'r wlad yn gyffredinol, ac anesmwythder nid bychan i Louis Napoleon a'i Weinyddiaeth. O'r tu arall y mae y *Moderates*, fel eu gelwir, yn eu hofn wedi cynnyg eu cynhorthwy i'r weinyddiaeth—pob peth er cadw y Gwerinwyr Cochion i lawr. Ac nid rhyfedd; y mae dosbarth o'r rhai hyn, y *Socialists*, yn cynnyg troi trefniadau gwladwriaeth "wyneb i waered."

Y mae llawer o'r newyddiaduron yn achwyn yn dost, fod y llywodraeth yn gorthrymu eu rhyddid mwy na mwy.

GERMANY.

Y mae llygaid Ewrop yn bresennol ar y Cyfarfod Germanaidd yn *Erfurt*; yn llawn ddisgwyliad a phryder ynghylch yr hyn a wneir neu a ddad-wneir yno. Prwssia sydd wedi eu galw ynghyd, yn gynnrychiolwyr o foneddigion a chyffredin gwahanol daleithiau Germany, gyda'r amcan proffesedig iddynt cytuno ar Undeb cenhedlaethol, a *chonstitution* i Germany yn gyffredinol. Agorwyd y cyfarfod ar yr 20fed. o Fawrth. Pa beth a ddaw o hyn, ni wyddys. Y mae yn rhyw beth tebyg i'r cynnygiad a ddaeth i'r dim yn *Frankfort*. Pa fodd bynag, y mae Awstria, Bavaria, Hanover a thywysogaethau Germanaidd eraill, yn gommedd cyd-weithio.

RHUFAIN.

Ymddengys fod y Pab o'r diwedd wedi penderfynu cymeryd galon i ddychwelyd i'w diriogaethau. Dywedir y bydd iddo gychwyn yr wythnos gyntaf ar ôl y Pasg. Ond nid ymddengys fod dim groesawiad iddo ar ran dinaswyr Rhufain.

MARWOLAETHAU.

Mawrth y 5ed. yn Llundain, yn 24 mlwydd oed. bu farw MR. RODERICK THOMAS DAVIES, mab hynaf y Parch J. Davies, Castellnewydd yn Emlyn. Machludodd ei haul megis ar ganol dydd—yn annisgwyliadwy; ac yn ddigwmwl. Yr oedd yn ddyn ieuange doniol, prydferth a gobeithiol dros ben, ac o'r fath ymddygiad moesol ag i ennill parch ac ymddiried y sawl a'i hadwaenent ef. Gadawodd ei rueni a'i geraint yn alarus ac hir aethlon ar ei ol.

Mawrth y 9fed. yn bur ddisymwth, bu farw y Parch. Thomas Jones, Saron, Llangeler. Deallwn ei fod yn dychwelyd adref, o'i gapel lle y buasai yn pregethu, pan yn teimlo anhwyldeb anarferol, y trodd i mewn i dy oedd ar bwys, ac y bu farw yn y man, yn ei 50fed. flwyddyn o'i weinidogaeth yn Saron, ac yn 80 mlwydd oed. Yr oedd Mr. J. yn weinidog parchus ymhlith yr Annibynwyr.

Mawrth y 19eg. yn Panttêg, ger Castellnewydd yn Emlyn, yn 94 mlwydd oed, bu farw MR. BENJAMIN EVANS, yr hwn fu yn pregethu i Gynnulleidfa y Pantteg dros hir flynyddau. Yr oedd wedi dwyn caracter rhagorol dda trwy ei holl fywyd; ac yr oedd mewn parch uchel gan y sawl a'i hadwaenent ef. Yr oedd hefyd yn Undodwr cywir—diwyd a ffyddlon yn ei oruchwyliaeth—a defnyddiol, yn ôl y cyfleusderau a gafodd.

Y 15ed. o Fawrth, yn Ffosyffald, yn 46ain. oed, bu farw Mrs. Davies, priod y Parch. Rees Davies, Gweinidog Undodaidd Rhydygwin a Chapel-y-groes, Ceredigion. Dydd Mawrth canlynol ymgynullodd i'w hangladd dyrfa fwy lluosog nag a welwyd erioed o'r blaen yn y gymydogaeth ar achlysur cyffelyb. Bernid gan amryw fod yn bresenol o ddwy i dair mil o dynion. Claddwyd hi yng nghladdfa'r Undodiaid wrth Capel-y-groes, pryd y pregethodd y parchedig John James o'r Gellionen bregeth gynwysfawr a phwrpasol oddiwrth 1 Pedr i. 24 ac 25ain. Yr oedd goreuon yr ardaloedd yn ei wrandaw, ac yn amlygu mawr gymeradwyaeth.

Mawrth 25 1850. T. T.

BARDDONIAETH, &c.

Ar "Sylwadau" Mr. Jones, Aberdâr, ar gair kolasis.

SYR,—Byddwch cystal a dyweyd yn yr Ymofynydd wrth Mr. Jones o Aberdâr, nad ydwyf yn bwriadu gwneyd un sylw neilldiol o'i ysgrif yn erbyn yr hyn a ysgrifenais ar y gair kolasis; oherwydd yn gyntaf, nad wyf yn cymeradwyo yr ysbryd mae Mr. Jones yn ysgrifenu ynddo; ac yn ail, am nad ydyw yn gwneyd dim yn rhagor nag a wnaeth o'r blaen, sef ymddibynu ar awdurdod yr *Improved Version* &c. Mae yn wir ei fod yn dwyn Leigh a Parkhurst fel awdurdod; ond mae wedi eu camddarlunio: Mae'r ddau awdwr hynny yn ei erbyn; a phe baent o'i du, nid yw eu hawdurdod o fawr gwerth. Y mae gennyf ryw obaith y bydd i draethawd arall ar y gair kolasis, gael ymddangos yn yr Ymofynydd cyn byddo hir, yn dangos beth yw ystyr gyffredinol y gair gan y Philosophyddion, Plato, Plutarch, ac Aristotle. Pe cynnygiasai Mr. Jones wneyd hynny, buasai gan rai ddiolch iddo heblaw

Yr eiddoch &c.

D. L. EVAN.

CWYN Y WEDDW.

Ar—"Y Galon Drom."

Pob cywir galon union heno,
Gaed o dymer i gydymdeimlo,
Wrthyf "*Weddw*" sy'n oedranus,
'Nawr a nghwyn yn wir anghenus,
Trwy i'm golli nghydmar callwych,
Oedd mewn trallod, yn ŵr hynod, parod, purwych;
I'm i gael 'does fawr ymgeledd,
Ond anniddan, wrth fy hunan, egwan agwedd.

'Roedd i'm feibion hyfion hefyd,
Da a diddan glan ddedwyddyd,
'Oent yn gymorth mad, teimladwy,
Ac yn nerthol eu cynorthwy;
'Nawr maent wedi troi'n eu gwrthol,
A ngado innau yn 'y mhoenau'n annymunol;
Pan oedd diffyg eu cyssuron,
Minnau 'n ddinawdd, bron a diffawdd uwch ben dwyffon.

Gwrando nef, fy llef a'm llafar!
Tithau 'n ddewr, o gwrando ddaear!
O ing addoer mae fy ngweddi,
Mwyn dwys tirion, mewn tosturi,
Nid oes neb a wrendy'm cwynfan,
Hyn sy'n chwerw i hên "*Weddw*" dlawd anniddan;
Darfu! darfu! arnai'n wrawl,
Eisiau'n ddiau, gwir iawn radau angenrheidiawl.

Os yw felly pob cyfeillion,
Hwyrach wedi cefnn'r awrhon,
Y mae cyfaill etto cyfiawn;
I mi 'n dyner Dad cariadlawn,
Rhâd yr Iôn wy'n gysson geisio,
Yn fy nghynal, bydd heb attal, yn Dad etto,
Af heb arswyd ger ei orsedd,
A'm cŵyu heno, câf drwy guro, wir drugaredd.

Aberdâr. EIDDIL GLAN CYNON.

AT EIN GOHEBWYR.

Yn y rhifyn hwn a'r un blaenorol gorfu arnom adael allan amryw ohebiaethau gwerthfawr o ddiffyg lle—rhai, am eu bod yn rhy faith, neu yn annarllenadwy; eraill, am eu bod, yn ôl ein barn ni, ar y cyfan yn anmhriodol neu yn ddiraid.

Y Parch. Daniel Davis—Y mae ein hen gyfaill parchus o Bontypridd wedi achwyn wrthym am "y driniaeth arw a thrwsgl a gafodd gan Mr. Jones, Aberdâr," yn Rhifyn Rhagfyr.

Drwg iawn genym fod dim wedi ymddangos yn ein Cyhoeddiad i beri y blinder lleiaf i Mr. D. Ein teimlad presenol yw, na ddylasem ar y pryd roddi lle i'r hyn a ddywed Mr. Jones am ysgrifeniadau Mr. Jevons a'i drefniadau yn Mlaengwrâch. Hysbysir ni fod Mr. Jones yn hyny wedi myned yn rhy bell. Ac annheg dwyn cyhuddiad ymlaen yn absenoldeb y cyhuddedig. Tebyg fod Mr. Davis a Mr. Jones yn gwahaniaethu yn eu golygiadau mewn perthynas i ddefnyddioldeb gweinidogaethol. Ond nid yw ond cyfiawnder i sylwi, nad yw "Sylwadau" Mr. Jones yn cynnwys un amheuaeth o eirwiredd Mr Davis, nac o gywirdeb ei broffes o Gristnogrwydd. Cwbl ammhosibl fyddai i ddim o'r fath beth ddyfod i feddwl Mr. Jones, na neb arall a adwaen Mr. Davis.

Am ein Gohebwyr ereill, gweler yr Amlen.

Penybont: Argraffwyd gan W. Winstone, yn ei Argraff-dy Cyffredinol, Plwyf Casnewydd, Ebrill, 1850.